# Llenyddiaeth Cymru

# Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

# ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

Rhif Cofrestru'r Elusen: 1146560

Rhif Cofrestru'r Cwmni: 07779153 (Lloegr a Chymru)

# Cynnwys


Amcanion a Gweithgareddau .......... 4

Pwy ydym ni .......... 4

Datganiad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr .......... 6

Nodau ac Amcanion .......... 9

Budd Cyhoeddus .......... 12

Cyflawniadau a Pherfformiad .......... 13

Rhaglenni .......... 13

Datblygiad Busnes .......... 24

Adolygiad Ariannol .......... 28

Trosolwg .......... 28

Codi Arian .......... 29

Polisi Cronfeydd Wrth Gefn .......... 30

Polisi ac Amcanion Buddsoddi .......... 30

Rheoli risgiau .......... 31

Cynlluniau ar Gyfer y Dyfodol .......... 32

Strwythur, Llywodraethu a Rheoli .......... 35

Manylion Cyfeirio a Gweinyddu .......... 36

Datganiad o Gyfrifoldeb Ymddiriedolwyr .......... 38

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol .......... 39

Datganiad o Weithgareddau Ariannol .......... 41

Mantolen .......... 42

Datganiad Llif Arian Parod .......... 43

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol .......... 44

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad a'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.

Mae'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r polisïau cyfrifo a gyflwynir yn nodyn 1 y cyfrifon yn ogystal â Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu y cwmni, y Ddeddf Cwmnïau 2006 a "Cyfrifyddu a Chyflwyno Adroddiadau gan Elusennau: Datganiad a'r Arfer a Argymhellir sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102)" (a ddiwygiwyd ar gyfer cyfnodau cyfrifo yn cychwyn 1 Ionawr 2016).

# Amcanion a Gweithgareddau

## Pwy ydym ni?

### Dathlu a Chefnogi Geiriau o Bob Math

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu llenyddiaeth yng Nghymru.


Trwy ein gwasanaethau datblygu awduron a thrwy alluogi a chefnogi cyfranogwyr a sefydliadau eraill wrth iddynt ymgysylltu â'r gelfyddyd, nod Llenyddiaeth Cymru yw gwneud llenyddiaeth yn llais i bawb.

Rydym yn cynnig ysgoloriaethau, cyrsiau ysgrifennu creadigol a hyfforddiant i awduron; yn cydweithio gyda sefydliadau ac unigolion sy'n cyfrannu at hyrwyddo, creu a mwynhau llenyddiaeth yng Nghymru; yn cynnig cyngor arbenigol i drefnwyr digwyddiadau ar awduron addas yn ogystal â chynnig arian tuag at gostau gweithgaredd; ac yn cyflawni prosiectau uchelgeisiol sy'n mynd i'r afael â rhai o brif heriau'r gymdeithas gyfoes.

Amcanion y sefydliad, fel y'u diffinnir yn yr Erthyglau Cymdeithasu, yw:

- Hyrwyddo llenyddiaeth o Gymru yng Nghymru ac yn fyd-eang.
- Cefnogi gwaith ysgrifennu ym mhob un o ieithoedd Cymru a dathlu treftadaeth lenyddol Cymru.
- Meithrin cariad tuag at lenyddiaeth ymhlith pobl o bob oedran, gallu a chefndir.
- Datblygu creadigrwydd a sgiliau llythrennedd plant a phobl ifanc.

Caiff Llenyddiaeth Cymru ei ariannu gan Cyngor Celfyddydau Cymru fel aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru, ac mae'n un o'i wyth Cwmni Cenedlaethol dynodedig.


PLANT a PHOBL IFANC
CEFNOGI AWDURON
Mae Llenyddiaeth yn perthyn i bawb ac ar gael ym mhob man. Drwy eiriau rydym yn canfod BYDOEDD newydd. Drwy weithio ag eraill mewn ystod eang o gymunedau, gall Llenyddiaeth Cymru sicrhau bod llenyddiaeth yn rhoi LLAIS i BAWB.
CREADIGRWYDD DIGIDOL
PROFFIL RHYNGWLADOL
CYMRYD RHAN

## Datganiad gan y Gadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr a Phrif Weithredwr Llenyddiaeth Cymru

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Llenyddiaeth Cymru ar gyfer 2017-18. Mae'r ddogfen hon yn dyst i effeithlonrwydd a phroffesiynoldeb y sefydliad, a hoffem ddiolch i'n swyddogion gweithredol am eu gwaith arbennig unwaith eto.

Cyflawnwyd y gwaith a ddogfennir yma yn ystod cyfnod heriol, ond cynhyrchiol, i Lenyddiaeth Cymru. Cafodd Adolygiad ar Gefnogaeth i Gyhoeddi a Llenyddiaeth yng Nghymru Llywodraeth Cymru, a gadeiriwyd gan Medwin Hughes, sgil-effaith aruthrol ar draws y sectorau llenyddiaeth a chyhoeddi yn dilyn ei gyhoeddiad ym mis Mehefin. Roedd dadansoddiad yr adolygiad – oedd yn aml heb wybodaeth gywir – yn argymell trefniadau cyllido newydd ar gyfer llenyddiaeth yng Nghymru. Rydym yn manylu ar effaith yr adolygiad ar y sefydliad ar dudalennau 24 a 28.

Serch hynny, fel y mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn dangos, llwyddodd Llenyddiaeth Cymru i gyflawni ei raglen o weithgareddau yn ystod y flwyddyn er gwaethaf y pwysau ychwanegol yn sgil Adolygiad Hughes – arwydd clir o wytnwch y sefydliad ac argyhoeddiad y staff a'r cyfarwyddwyr yn ein gwerthoedd craidd. Rhaid yw talu teyrnged yma i'n Cadeirydd sy'n ymadael, yr Athro Damian Walford Davies, a lwyddodd i arwain y sefydliad drwy'r cyfnodau digwyddlon hyn gydag awdurdod, egwyddor a gweledigaeth glir. Rydym yn ddiolchgar hefyd i'r unigolion a'r sefydliadau sydd wedi parhau i gefnogi a thrafod â Llenyddiaeth Cymru trwy gydol y flwyddyn, ac sydd yn amlwg yn rhannu ein gweledigaeth a'n gobeithion ar gyfer y sector.

Mae uchafbwyntiau arwyddocaol y flwyddyn yn cynnwys: Seremoni Wobrwyo Llyfr y Flwyddyn yn y Tramshed, Caerdydd o flaen ystafell lawn o lên-garwyr; cynlluniau ysgoloriaethau a mentora wedi eu ailwampio, a lwyddodd i ddenu'r niferoedd uchaf erioed o awduron newydd; lansiad Cynllun Nawdd Llên a Lles ar draws Cymru gyfan; a chyfres lwyddiannus dros ben o gyrsiau yn Nhŷ Newydd. Rydym yn falch iawn o nodi fod incwm o archebion cyrsiau wedi cynyddu 65% ers 2014-15.

Mae ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn parhau i ddatblygu ac i dyfu. Fe lwyddodd y ddarpariaeth gyfunol yn 2017-18 – sy'n cynnwys gweithdai gan Fardd Plant Cymru ac Awdur Ieuenctid Cymru – i gyrraedd 39,784 o blant a phobl ifanc, gan ysbrydoli cariad tuag at lenyddiaeth ymysg cenedlaethau'r dyfodol.

Mae awduron wrth wraidd ein gweithgareddau, yn arwain ac yn cyflawni rhaglen amrywiol tu hwnt. Mae'n anghyffredin i awdur enill bywoliaeth o werthiant llyfrau yn unig, ac mae'r amrywiaeth o weithgareddau a hwylusir gan Lenyddiaeth Cymru yn galluogi nifer o awduron i barhau i weithio yn y maes y maent yn ei garu. Er mwyn parhau â hynny, mae'n hanfodol ein bod yn cynnig cefnogaeth a hyfforddiant i awduron sy'n gweithio â grwpiau penodol o bobl, er enghraifft unigolion sy'n byw â dementia, oedolion syn agored i niwed, neu garcharorion. Mae'r awduron sy'n arwain ein gweithgareddau Llên Pawb wedi derbyn hyfforddiant Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed, a derbyniodd y 34 awdur fu'n rhan o'n cynllun Cymru Ryfedd a Chyfareddol hyfforddiant ar sut i ymgysylltu yn greadigol gydag oedolion sy'n agored i niwed.

Gall weithio fel ymarferydd creadigol gyda chyfranogwyr o grwpiau amrywiol gael effaith sylweddol ar greadigrwydd personol awdur. Enghraifft nodedig o hyn yw Gwion Hallam yn ennill Coron Eisteddfod Genedlaethol 2017, gan ddatgan o'r llwyfan fod ei brofiad o weithio gydag unigolion sy'n byw â dementia mewn gweithdai a drefnwyd gan Llenyddiaeth Cymru wedi ysbrydoli'r cerddi buddugol.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn falch o barhau â'i bartneriaeth â Gŵyl y Gelli ar Awduron Wrth eu Gwaith: rhaglen datblygiad proffesiynol unigryw a dwys i grŵp o awduron newydd a phrofiadol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Enghraifft pellach o gydweithio llwyddiannus â phartneriaid oedd sicrhau stondin ar-y-cyd i Gymru yn Ffair Lyfrau Llundain. Ffurfiodd Cyngor Celfyddydau Cymru, British Council Cymru, Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau, Llenyddiaeth Cymru, Cyfnewidfa Lên Cymru, PEN Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru y Grŵp Rhanddeiliaid Llenyddiaeth Ryngwladol yng Nghymru, gan gydweithio i sicrhau'r presenoldeb hwn. Dyma gyfle pwysig ac amserol i arddangos rhai o awduron cyfoes gorau Cymru ar un o lwyfannau pwysicaf y diwydiant. Ysgrifennodd Gary Raymond yn Wales Arts Review: "…dyma lenyddiaeth Gymreig y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, oll yn cael eu cyflwyno fel ffenomenon ar un o lwyfannau mwyaf dylanwadol y byd."

Daeth y gorffennol a'r presennol ynghyd wrth i furlun anferth 50 troedfedd o uchder o'r Mabinogion gael ei osod ar y Tŵr Dŵr eiconig ger Gorsaf Ganolog Caerdydd. Er gwaethaf sawl rhwystr (gan gynnwys stormydd eira annisgwyl), roedd gweld dadansoddiad yr artist Pete Fowler o'n chwedlau hynafol yn holl liwiau'r enfys yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn, heb os. Roedd y cerddor Gruff Rhys, sy'n byw nepell o'r Tŵr Dŵr yn croesawu "seicideliceiddiad" canol y ddinas. Allwn ni ond cytuno'n frwd.

Felly, o furluniau mawreddog i weithdai mewn carchardai, o ystafelloedd dosbarth i ffeiriau llyfrau rhyngwladol, boed chi'n bump, yn bum deg pump neu'n gant a phump – mae llenyddiaeth yn perthyn i bob un ohonom, ac mae'n golygu'r byd.

Dr Kate North, Cadeirydd

Lleucu Siencyn, Prif Weithredwr


Rydym yn CREDU
ceir y canlyniadau gorau drwy gydweithio ag eraill
bod llenyddiaeth yn perthyn i bawb
mewn rhoi grym i bobl, grwpiau a chymunedau
fod llenyddiaeth yn fuddiol i ni a gall wella ein bywydau
fod gan blant a phobl ifanc yr hawl i leisio'u barn ac adrodd eu hanesion
dylai sefydliadau celfyddydol sicrhau gwerth am arian
dylid gweithredu mewn dull arloesol, deinamig a chyda meddwl agored BOB AMSER

## Nodau ac Amcanion

Mae llenyddiaeth yn perthyn i bawb ac ar gael ymhob man. Drwy eiriau rydym yn canfod bydoedd newydd. Drwy weithio gydag eraill mewn ystod eang o gymunedau, gall Llenyddiaeth Cymru wneud llenyddiaeth yn llais i bawb.

Er mwyn cyflawni'r genhadaeth hon, mae Llenyddiaeth Cymru yn canolbwyntio ar bum maes strategol:

### Cymryd Rhan

### Gwella cyfleoedd er mwyn i bawb ddod i gysylltiad â llenyddiaeth ledled Cymru

Rydym yn cyflawni hyn drwy:

- gynyddu ehangder y gweithgareddau llenyddol a ddarperir drwy weithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid
- weithio gyda mwy o bobl sydd mewn perygl o gael eu datgysylltu'n gymdeithasol neu barhau i fod wedi'u datgysylltu
- sbarduno a chefnogi gweithgareddau cynaliadwy o dan arweiniad lleol

Gweithgareddau allweddol:

- Awduron ar Daith
- Llên Pawb
- Cynllun Nawdd Llên a Lles
- Ffrindiau Darllen
- Cymru Ryfedd a Chyfareddol
- Gwyliau amrywiol

### Cefnogi Awduron

### Datblygu a chefnogi awduron ar bob cam o'u gyrfa lenyddol i gyflawni eu llawn botensial

Rydym yn cyflawni hyn drwy:

- gynnig cymorth i awduron er mwyn iddynt allu rhagori yn eu maes
- annog awduron i fod yn arloesol ac arbrofol yn eu gwaith
- ddatblygu cyfleoedd ymarferol a chyfleoedd datblygu penodol i awduron ifanc

Gweithgareddau allweddol:

- Cynlluniau Ysgoloriaethau a Mentora
- Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd
- Gwobr Llyfr y Flwyddyn

## Plant a Phobl Ifanc

### Cynnig rhagor o gyfleoedd i blant a phobl ifanc greu a mwynhau'r byd llenyddol o'u hamgylch beth bynnag eu hoedran, gallu a'u cefndir

Rydym yn cyflawni hyn drwy:

- gynyddu'r nifer o blant a phobl ifanc yng Nghymru sy'n dod i gyswllt â llenyddiaeth o safon uchel yn ei holl ffurfiau;
- ddefnyddio pŵer geiriau i ysgogi hunanfynegiant ymhlith pobl ifanc;
- fynd i'r afael â thlodi diwylliannol, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu drwy fwynhad o lenyddiaeth

Gweithgareddau allweddol:

- Bardd Plant Cymru
- Awdur Ieuenctid Cymru
- Cyrsiau Ysgolion Tŷ Newydd
- Sgwadiau 'Sgwennu'r Ifanc
- Cadwyn Heddwch

## Rhyngwladol

### Gweithio mewn partneriaeth er mwyn codi proffil awduron a llenyddiaeth Cymreig

Rydym yn cyflawni hyn drwy:

- hwyluso, cynghori a chydweithio ar brosiectau rhyngwladol
- fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer cynyddu amlygrwydd awduron o Gymru ar lwyfan byd-eang
- ddysgu a thyfu drwy gyfnewid arfer da a diwylliant

Gweithgareddau allweddol:

- Bardd Cenedlaethol Cymru
- Barddoniaeth Colled
- Y Cwm, Y Ddinas, Y Pentref
- Ffair Lyfrau Llundain
- Tandem Europe

## Creadigrwydd Digidol

### Defnyddio creadigrwydd digidol i hyrwyddo ac annog rhagor o bobl i ymgysylltu â llenyddiaeth

Rydym yn cyflawni hyn drwy:

- weithio gyda chynulleidfaoedd newydd a chynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd
- greu mwy o gynnwys ac adnoddau digidol i gynyddu gwerth a gwaddol ein gweithgareddau
- wella mynediad at greadigrwydd drwy lwyfannau a sgiliau digidol

Gweithgareddau allweddol:

- Her 100 Cerdd
- Cynnwys digidol unigryw er mwyn rhannu'r profiad o fynychu digwyddiadau byw a chreu prosiectau llenyddiaeth digidol newydd
- Mae llenyddiaeth yn rhywbeth i bawb ac mae ar gael ymhob man, gan gynnwys ar Twitter, Instagram, YouTube, Facebook, Flickr, Snapchat…

## Budd Cyhoeddus

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi rhoi ystyriaeth i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus.

Ceir budd cyhoeddus o waith Llenyddiaeth Cymru drwy'r gwaith o ymgysylltu a chyfranogi. Trwy ei bartneriaethau a'i gynlluniau nawdd, mae cyrhaeddiad Llenyddiaeth Cymru yn sylweddol: yn ystod 2017-18, gwnaeth 97,753 o bobl fynychu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau a gefnogwyd gan Llenyddiaeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys 39,784 o blant a phobl ifanc.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn gosod llenyddiaeth wrth wraidd agendâu lles, llythrennedd, cyflogaeth a sgiliau. Ein nod yw sicrhau y caiff llenyddiaeth ei gweld fel rhan hanfodol o fywyd cytbwys, ymgysylltiol ac iach ac rydym yn cefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid mewn gwahanol sectorau er mwyn sicrhau bod y celfyddydau a diwylliant yn chwarae rhan allweddol wrth fynd i'r afael â thlodi a diffyg cyfleoedd yng Nghymru. Mae mentrau o dan pob un o'r pum maes strategol yn anelu at gryfhau cyswllt llenyddiaeth gyda materion yn ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol, gan gynnwys: cynyddu lefelau llythrennedd yng Nghymru, cynyddu'r amrywiaeth o grwpiau sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau llenyddol, gwella hygyrchedd y llwybrau creadigol sydd ar agor i awduron newydd a sefydledig, cynyddu cyfleoedd gwaith i awduron o Gymru, a chynyddu nifer yr ymwelwyr â Chymru sy'n ymddiddori yn nhreftadaeth lenyddol y wlad a'r diwylliant cyfoes. Felly mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod rhaglen Llenyddiaeth Cymru yn cynnig budd cyhoeddus sylweddol i Gymru.

# Cyflawniadau a Pherfformiad

## Rhaglenni

Isod ceir manylion rhai o'r prif fentrau a gynhaliwyd yn ystod 2017-18:

### Cymryd Rhan: Gwella cyfleoedd er mwyn i bawb ddod i gysylltiad â llenyddiaeth ledled Cymru

#### Awduron ar Daith

Mae'r cynllun Awduron ar Daith yn cefnogi gweithgareddau llenyddol a gaiff eu trefnu a'u rhedeg yn lleol. Mae rhain yn cynnwys gweithdai, darlleniadau, perfformiadau, gwyliau bychain a darlithoedd, a hynny ledled Cymru. Mae'r cynllun yn galluogi i bobl o Fôn i Fynwy ymwneud â llenyddiaeth yn eu hardal lleol boed hynny mewn digwyddiadau Cymraeg, Saesneg neu ddwyieithog.

Mae Awduron ar Daith yn parhau i fod yn rhan annatod o rôl Llenyddiaeth Cymru fel hwylusydd ar gyfer digwyddiadau llenyddol ledled Cymru. Gallwn gynnig hyd at 50% o ffioedd yr awdur i gefnogi grwpiau, ysgolion, cymdeithasau a sefydliadau, ac mae poblogrwydd y cynllun yn amlwg o weld niferoedd y ceisiadau sy'n ein cyrraedd pob mis.

Yn ystod 2017-18 cefnogwyd 215 o ddigwyddiadau a 247 o awduron unigol. Roedd 54 o'r digwyddiadau hynny wedi eu trefnu'n benodol ar gyfer plant neu bobl ifanc.

> *Denwyd cyfanswm o 5,000 o bobl i ddigwyddiadau a gefnogwyd gan gynllun Awduron ar Daith yn ystod 2017-18.*

#### Cynllun Nawdd Llên a Lles

Ym mis Awst 2017 cyhoeddodd Llenyddiaeth Cymru alwad am awduron ac artistiaid i greu ac arwain cyfres o weithdai ysgrifennu creadigol yn y gymuned. Gwahoddwyd awduron i adnabod grŵp targed a chanlyniad penodol ar gyfer eu gweithgaredd. Comisiynwyd deg awdur i ymgymryd â'r prosiectau, ac aeth y gwaith rhagddo yng ngwanwyn 2018.

Mae'r grwpiau a elwodd o'r cynllun yn cynnwys: unigolion sydd wedi profi digartrefedd; ceiswyr lloches; merched sydd wedi dioddef trais yn y cartref; cleifion gofal lliniarol a'u gofalwyr; carcharorion; unigolion sy'n gwella o gamddefnydd cyffuriau; ac unigolion sydd mewn peryg o deimlo datgysylltiad neu gael eu gwthio i gyrion cymdeithas. Daeth y gweithgareddau i ben gyda dathliadau mewn sawl ffurf, gan gynnwys digwyddiadau, cyhoeddi pamffledau barddoniaeth, recordiadau sain, a deunydd digidol unigryw.

> *"Diwrnod olaf y preswyliad oedd hi ac roeddet ti'n eistedd gyda'r bardd yn darllen y ddwy gerdd sgwennaist ti am dy salwch. Maen nhw wedi dweud wrthot ti mai misoedd sydd gennyt i fyw bellach… Nawr mae'r bardd yn eistedd yn agos atat ti, ac rwyt ti'n esbonio sut mae barddoniaeth wedi dy helpu i fynegi dy deimladau am y cyfnod hwn yn dy fywyd. Wrth i ni adael, rwyt ti'n cofleidio'r bardd yn gynnes, ac i mi, dyma yw ystyr y gair lliniarol, sy'n helpu a chefnogi pob agwedd ohonot ar ddiwedd bywyd, ond sydd hefyd yn dathlu'r bywyd rwyt ti'n ei fyw nawr. - **Gudrun Jones**, Therapydd Celf, yn siarad am breswyliad Mererid Hopwood gyda Thîm Gofal Lliniarol Ysbyty Bronglais, Aberystwyth.*

## Llên Pawb

Mae Llên Pawb yn darparu cyfleoedd i lenyddiaeth fod o fudd i iechyd a lles yr unigolion mwyaf bewgus ac agored i niwed yn ein cymunedau. Mae Llên Pawb yn adeiladu ar ddwy o fentrau blaenorol Llenyddiaeth Cymru – Cynllun Hyrwyddo Llenyddiaeth Gwynedd a Menter Datblygu Llenyddiaeth De Cymru.

Ariennir Llên Pawb drwy Grant Datblygu Cynulleidfa, Cyngor Celfyddydau Cymru, gyda chyfraniadau ariannol gan wyth Awdurdod Lleol – Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych, Caerffili, Casnewydd, Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen, yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r partneriaid hyn i adnabod grwpiau a chymunedau penodol, ac i greu rhaglen o weithgareddau lle byddant yn cydweithio ag awduron. Mae'r gweithgareddau hyn wedi eu teilwra i gynyddu sgiliau llythrennedd, cyflogadwyedd, ymgysylltiad cymdeithasol, dysgu gydol oes, a hunan-hyder gyda'r nod o gael effaith bositif ar lesiant yr unigolion.

Ym mlwyddyn gyntaf o weithgaredd y cynllun, mae'r grwpiau a gymerodd ran yn Llên Pawb yn cynnwys: dioddefwyr cyflyrau cronig a'u gofalwyr; preswylwyr cartrefi henoed; disgyblion ysgolion ag anghenion addysgol ychwanegol; pobl sy'n byw â chyflyrau iechyd meddwl; aelodau Men's Shed; pobl ifanc sydd wedi profi digartrefedd, a llawer mwy. Mae'r gweithgareddau wedi canolbwyntio ar sawl ffurf llenyddol a chelfyddydol gan gynnwys: creu haiku a gwaith celf, adrodd stori, cerdded ac ysgrifennu caneuon, barddoniaeth a symudedd, barddoniaeth a phêl-droed, a pherfformio barddoniaeth.

> *"Pan welodd y defnyddwyr gwasanaeth eu hunain ar y DVD, roedd llawer o chwerthin a dagrau llon. Roedd rhai'n methu adnabod eu hunain; roedd rhai yn dweud nad oedden nhw'n swnio fel eu hunain; ambell un ddim yn sylweddoli eu bod wedi cymryd rhan; ond cafodd pob un ohonynt amser bendigedig yn hel atgofion"*
>
> *- **Jude Hiles**, Uwch Swyddog Gofal yn trafod Prosiect Dementia yn y Barri*

## Cymru Ryfedd a Chyfareddol

Yn dilyn cais grant llwyddiannus i'r Foyle Foundation a Chronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth, gyda chyfraniadau hael gan Cadw, FOR Cardiff, Trenau Arriva Cymru, Network Rail a Gardners, datblygodd Llenyddiaeth Cymru brosiect o'r enw Cymru Ryfedd a Chyfareddol fel rhan o Flwyddyn y Chwedlau 2017.

Yn dilyn ymgynghoriad cychwynnol â'r Athro Sioned Davies, sy'n arbenigwr ar y Mabinogion, aeth yr artist Cymreig nodedig, Pete Fowler, ar daith o amgylch Cymru yn ystod hydref 2017 i ddod o hyd i rai o chwedlau rhyfeddaf Cymru. Aeth y daith i chwe safle Cadw lle gweithiodd Pete gyda 10 sefydliad, 24 awdur newydd a dros 80 o aelodau'r cyhoedd i greu gweithiau celf newydd wedi ei seilio ar chwedlau a straeon lleol.

Penllanw'r prosiect oedd gosod murlun 50 troedfedd o uchder ar y Tŵr Dŵr yng Ngorsaf Rheilffordd Caerdydd Ganolog, sy'n adeilad rhestredig gradd II. Mae'r murlun yn cynnwys darluniau wedi eu hysbrydoli gan straeon Y Mabinogi, a bydd dros 8 miliwn o ymwelwyr â'r ddinas yn ei weld bob blwyddyn. Eisoes, mae'r murlun wedi serennu mewn darllediadau teledu o ddigwyddiadau chwaraeon mawr yn y ddinas ac mewn ymgyrchoedd i farchnata dinas Caerdydd.

> *"Rydw i mor ddiolchgar am y cyfle hwn - dyma'r tro cyntaf i mi deimlo cymaint o ysbrydoliaeth." **- Awdur newydd** a fu'n rhan o gynllun Cymru Ryfedd a Chyfareddol*

## Ffrindiau Darllen

Mae Ffrindiau Darllen yn brosiect cyfeillio tair blynedd o hyd a gaiff ei ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr a'i gweinyddu yng Nghymru gan Lenyddiaeth Cymru, ar y cyd â'r prif bartner, The Reading Agency. Dechreuodd y cynllun peilot blwyddyn o hyd ym mis Mehefin 2017, a caiff ei arwain gan Wasanaeth Llyfrgelloedd Conwy. Fe'u dewiswyd hwy i ymgymryd â'r gwaith yn dilyn galwad agored i lyfrgelloedd cyhoeddus, cymunedau lleol a sefydliadau gwirfoddol fynegi diddordeb i gymryd rhan yn y cynllun.

Nod y cynllun yng Nghonwy yw targedu cymunedau gwledig sydd â risg uwch o unigedd. Mae'r cynllun yn ei anterth erbyn hyn gyda gwirfoddolwyr yn eu lle, wedi eu hyfforddi fel Partneriaid Darllen ac wedi eu partneru gyda Ffrind Darllen. Mae Llenyddiaeth Cymru a Gwasanaeth Llyfrgelloedd Conwy, ynghyd â'r holl bartneriaid eraill ar draws y DU yn cyfrannu at broses werthuso ehangach y cynllun prawf hwn ar ran The Reading Agency a fydd yn arwain datblygiad y prosiect ar gyfer 2018-19.

> *Y rhesymau mwyaf poblogaidd dros wirfoddoli i fod yn Ffrind Darllen oedd: "i gyfarfod a chefnogi pobl unig/pobl sydd wedi eu hynysu" ac i "roi rhywbeth yn ôl i'r ardal leol"*

## Hwyluso Gwyliau

### Gŵyl Llên Plant Caerdydd

Cydweithiodd Llenyddiaeth Cymru gyda Chyngor Caerdydd unwaith eto eleni, gan gydlynu'r sesiynau Cymraeg eu hiaith ar gyfer pumed pennod Gŵyl Llên Plant Caerdydd. Wedi'i anelu'n bennaf at blant 3-11 mlwydd oed, mae Gŵyl Llên Plant Caerdydd yn parhau i greu darllenwyr am oes wrth ddiddanu a thanio brwdfrydedd plant am lenyddiaeth a darllen. Trefnodd Llenyddiaeth Cymru 11 sesiwn Cymraeg ar gyfer yr arlwy, a'r rheiny'n amrywio o sesiynau rhyngweithiol crefft a stori i blant ifanc i weithdai ysgrifennu creadigol i rai ychydig yn hŷn.

### Tafwyl

Trefnodd Llenyddiaeth Cymru raglen o ddigwyddiadau llenyddol Cymraeg ar gyfer gŵyl Tafwyl yng Ngorffennaf 2017 a groesawodd bron 40,000 o ymwelwyr i Gaeau Llandaf. Cynhaliwyd y digwyddiadau ym mhabell Y Lolfa Lên mewn partneriaeth ag Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe. Cafwyd amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys darlleniadau, cyfweliadau, perfformiadau, gweithdai ysgrifennu a darlunio yn ogystal â gormes flynyddol Talwrn y Beirdd BBC Radio Cymru.

### Yr Eisteddfod Genedlaethol

Cafwyd newid i'r Lolfa Lên arferol yn Eisteddfod Genedlaethol 2017 yn dilyn ein penderfyniad i weithredu cynllun nawdd a fyddai'n cynnig cefnogaeth i sefydliadau ac awduron i gynnal gweithgareddau llenyddol ar hyd caeau'r brifwyl. Cefnogwyd 22 o weithgareddau unigol ledled y maes yn ystod yr wythnos gyda sefydliadau ac elusennau megis Cymorth Cristnogol, Awen Meirion, Venue Cymru, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru ac Academi Hywel Teifi yn elwa o'r nawdd.

Cefnogodd cynllun Llên ar Daith ar y Maes awduron newydd a rhai profiadol fel ei gilydd, gan gynnwys Iestyn Tyne, Myrddin ap Dafydd, Elan Grug Muse, Karen Owen, Fiona Collins ac Aled Sam.

## Cefnogi Awduron: Datblygu a chefnogi awduron ar bob cam o'u gyrfa lenyddol i gyflawni eu llawn botensial

### Cynlluniau Ysgoloriaethau i Awduron a Mentora

Yn dilyn ymgynghoriad â'r sector ynglŷn â chefnogaeth Llenyddiaeth Cymru i awduron, ail-lansiwyd ein Cynlluniau Datblygu Awduron yng Ngorffennaf 2017 gan roi rhagor o bwyslais ar awduron newydd, cynnydd yn y cyfleoedd mentora, a datblygu cysylltiadau gwell rhwng yr ymgeiswyr llwyddiannus a chynrychiolwyr o'r diwydiant. Dechreuodd y model newydd ym mis Chwefror 2018. Caiff y cynlluniau eu hariannu gan Y Loteri Genedlaethol drwy Gyngor Celfyddydau Cymru.

Mae Ysgoloriaethau Llenyddiaeth Cymru yn galluogi awduron i ddatblygu gwaith newydd, heb fod unrhyw ymrwymiad i gyhoeddi'r gwaith. Mae hyn yn rhoi'r rhyddid i awduron fentro i dir newydd a datblygu eu proses artistig, gan roi'r amser a'r adnoddau iddynt ymroi i ymchwilio, ysgrifennu, ail-edrych ac adlewyrchu. Mae'r Cynllun Mentora yn cynnig cymorth a chyngor ymarferol i awduron ar ddechrau eu gyrfa.

Derbyniwyd 110 o geisiadau am Ysgoloriaethau eleni, gyda 73 o'r rheiny yn awduron newydd. Dewisodd y Panel Ysgoloriaethau annibynnol 25 awdur a dderbyniodd gyfanswm o £60,200 i ddatblygu gwaith ar y gweill. Yn eu mysg roedd y nifer uchaf erioed o ymgeiswyr newydd a lleisiau benywaidd amlwg. Derbyniodd 10 awdur newydd le ar y Cynllun Mentora estynedig, gan gynnwys y 6 a dderbyniwyd ysgoloriaeth benodol ar gyfer awduron newydd. Cynhaliwyd y cwrs preswyl pwrpasol cyntaf ar gyfer yr awduron ar y Cynllun Mentora yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd ym mis Chwefror 2018. Dechreuodd sesiynau mentora unigol ym mis Mehefin 2018. Bu hefyd gyfle i'r criw fynychu dau ddigwyddiad rhwydweithio gyda phartneriaid ar draws y sector.

> *"Fel awdur llawn amser ers deng mlynedd ar hugain yr hyn mae fy Ysgoloriaeth wedi ei roi i mi yw'r rhodd o amser. Mae'r gefnogaeth ariannol wedi fy ngalluogi i gael cyfnodau di-bwysau o feddwl am syniadau a'u gwrthod, i ysgrifennu pytiau, eu gadael ac yna dychwelyd atynt gyda llygad llawer mwy craff a hunan-feirniadol."*
> **– William Gwyn Jones,** Derbynnydd Ysgoloriaeth Awdur Newydd a Chynllun Mentora 2018

### Awduron wrth eu Gwaith

Gweithiodd Llenyddiaeth Cymru mewn partneriaeth agos â Gŵyl y Gelli ar gyfer eu hail raglen Awduron wrth eu Gwaith ym mis Mai-Mehefin 2017. Mae Awduron wrth eu Gwaith yn rhaglen ddatblygu broffesiynol i feithrin talent lenyddol Cymru yn y Gymraeg a'r Saesneg, sydd wedi ei drefnu gan Ŵyl y Gelli a'i gefnogi gan Gyngor y Celfyddydau.

Mae'r rhaglen yn digwydd dros gyfnod yr ŵyl 11 niwrnod, ac yn rhoi cyfle i awduron newydd elwa ar arbenigedd gweithwyr ym meysydd cyhoeddi ac ysgrifennu creadigol yng Nghymru a thu hwnt. Mae Llenyddiaeth Cymru yn darparu cefnogaeth i'r rhaglen trwy hyrwyddo'r cyfle, cynorthwyo'r broses o ddethol awduron, yn ogystal â darparu sesiynau ar y cyfleoedd sydd ar gael i awduron yng Nghymru.

> *"Wedi'r Gelli, dysgais fy mod i'n gallu gwneud gwahaniaeth gyda fy straeon. Mae gen i rywbeth i'w roi. Efallai na fyddaf i'n newid y byd, ond fel mae'r dywediad enwog yn ei ddweud, efallai y gallaf i newid byd un person." - **Eloise Williams**, un o Awduron wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli*

## Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

Yn ystod 2017-18, cynhaliwyd 26 cwrs preswyl ac 8 cwrs undydd i'r cyhoedd yn Nhŷ Newydd, gan ddatblygu sgiliau awduron mewn amryw o feysydd gwahanol. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys: barddoniaeth; ysgrifennu nofelau a llenyddiaeth i blant; ysgrifennu er iechyd a llesiant ac am newid hinsawdd; cyfieithu barddoniaeth; cyfuno ysgrifennu a chelf a llawer mwy.

Daeth cyfanswm o 365 o bobl ar y cyrsiau yn ystod y flwyddyn, a cawsant eu tiwtora gan rai o awduron mwyaf nodedig y DU, gan gynnwys Gillian Clarke, Horatio Clare, Carol Ann Duffy, Twm Morys, Eurig Salisbury, ac Ian McMillan. Treialwyd y cwrs Tŷ Newydd ar Daith cyntaf, gan fynd â chwrs undydd yng nghwmni Kate Hamer a Holly Müller i Gaerdydd er mwyn denu awduron i gofrestru ar gwrs llawn yn Nhŷ Newydd.

> *Ar ôl mynychu cwrs yn Nhŷ Newydd yn 2017-18, dywedodd 71% o'r cyfranogwyr fod y cwrs yn bendant wedi cyfrannu at eu datblygiad a'u cynnydd fel awdur. Roedd 67% wedi cyhoeddi eu gwaith yn dilyn y cwrs, neu yn gweithio ar waith i'w gyhoeddi yn fuan.*

## Gwobr Llyfr y Flwyddyn

Un o brif weithgareddau Llenyddiaeth Cymru yw Gwobr Llyfr y Flwyddyn, y wobr genedlaethol flynyddol sy'n dathlu rhagoriaeth lenyddol ym meysydd ffuglen, barddoniaeth a ffeithiol greadigol.

Ym mis Ionawr 2017, comisiynodd Llenyddiaeth Cymru adolygiad o Wobrau Llyfr y Flwyddyn, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2017. Yn dilyn pwysau ariannol cynyddol dros y blynyddoedd diwethaf, roedd Llenyddiaeth Cymru yn awyddus i asesu ei fodelau busnes a gweinyddu ar gyfer Llyfr y Flwyddyn. Y nod oedd adnabod modelau newydd, cynaliadwy a fyddai'n galluogi'r sefydliad i barhau i gynnal y Gwobrau a'u ehangu bob blwyddyn.

Canfu'r adolygiad, a gynhaliwyd gan yr asiantaeth cyfathrebu creadigol, Mela, gefnogaeth eithriadol i'r wobr ymysg partneriaid a rhanddeiliaid Llenyddiaeth Cymru ac ymysg y cyhoedd. Roedd cyfranogwyr yn unfrydol o'r farn bod Llyfr y Flwyddyn yn rhan bwysig o dirlun llenyddol Cymru ac yn cynnig digwyddiad pwysig i'r diwydiant.

Roedd argymhellion yr adolygiad yn cynnwys: symleiddio'r broses feirniadu – gan gynnwys cyflwyno cam hidlo; cyflwyno ffi am gymryd rhan; datblygu cynllun ymgysylltu â noddwyr; gwella partneriaethau ym mhob rhan o'r sector; ac ystyried ffyrdd o ddatblygu'r seremoni wobrwyo. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd ymgynghori â phartneriaid a rhanddeiliaid lle trafodwyd argymhellion yr adolygiad ac i gytuno ar amserlen ar gyfer gwobr 2017.

Cyhoeddwyd enillwyr y wobr mewn ystafell orlawn yn Tramshed, Caerdydd ym mis Tachwedd. Y ddau brif enillydd oedd Idris Reynolds am ei gyfrol *Cofio Dic* (Gwasg Gomer) ac Alys Conran am ei nofel gyntaf *Pigeon* (Parthian).

> *Yn dilyn cyhoeddi enillwyr 2017:*
>
> *Saethodd gwerthiant Cofio Dic 400% rhwng Tachwedd 2017 – Mehefin 2018 o gymharu â ffigyrau gwerthiant y flwyddyn flaenorol.*
>
> *Cynyddodd gwerthiant Pigeon 43%; gwerthwyd hawliau darlledu i Cwmni Da; gwerthwyd hawliau llyfr llafar i WF Howes ar gyfer Audible/Amazon; mae'r nofel yn cael ei chyhoeddi fesul rhan yn y Western Mail ac mae ar restrau WH Smiths.*

## Plant a Phobl Ifanc: Cynnig rhagor o gyfleoedd i blant a phobl ifanc greu a mwynhau'r byd llenyddol o'u hamgylch beth bynnag eu hoedran, gallu a'u cefndir

### Bardd Plant Cymru

Mae Llenyddiaeth Cymru yn rhedeg cynllun Bardd Plant Cymru ar y cyd â'r partneriaid S4C, Cyngor Llyfrau Cymru, Yr Urdd a Llywodraeth Cymru. Daeth dwy flynedd Anni Llŷn i ben ym mis Mai 2017 wedi iddi ymweld â pob un o siroedd Cymru, 83 o ysgolion a 10 castell gan gyflwyno barddoniaeth i 6,000 o blant.

Cyhoeddwyd mai Casia Wiliam fyddai'r olynydd, a chychwynnodd yn ei rôl ym mis Medi 2017. Mae ei gwaith yn cynnwys gweithio mewn ysgolion, ymweld â gwyliau gwahanol, ysgrifennu cerddi comisiwn a chymryd rhan mewn prosiectau arbennig.

Mae ymateb ac adborth plant ac athrawon i sesiynau Casia wedi bod yn hynod bositif. Mae'r uchafbwyntiau eleni'n cynnwys: taith o amgylch ysgolion Brycheiniog a Maesyfed ym mis Mawrth 2018, ble cynhaliwyd gweithdai gyda nifer o ysgolion lle mae'r Gymraeg yn ail iaith; a chynnal gweithdy yng Nghastell Caerdydd ar gyfer Diwrnod Roald Dahl ym mis Medi mewn partneriaeth ag Ystâd Lenyddol Roald Dahl a Chyngor Caerdydd.

### Awdur Ieuenctid Cymru

Nod menter Awdur Ieuenctid Cymru yw datblygu hunanfynegiant, creadigrwydd a sgiliau cyfathrebu ymhlith pobl ifanc. Drwy ddefnyddio amrywiaeth eang o ddisgyblaethau, datblygwyd y prosiect er mwyn ymgysylltu â'r genhedlaeth nesaf mewn ffyrdd newydd ac arloesol. Mae'r Awdur Ieuenctid yn gweithio yn benodol gyda phobl ifanc o gefndiroedd anodd eu cyrraedd a difreintiedig.

Yn ystod ei blwyddyn olaf yn y rôl, bu Sophie McKeand yn cynnal gweithdai ysbrydoledig gyda phobl ifanc ar hyd a lled y wlad. Bu Sophie'n arwain gweithdai amrywiol yn ogystal â chymryd rhan mewn prosiectau ehangach gan gynnwys dathliadau Dydd Dylan yng Nghastell Y Waun, taith Cymru Ryfedd a Chyfareddol yng Nghastell Caernarfon, Slam Barddoniaeth Cipio'r Castell dan ofal Theatr Genedlaethol Cymru a phrosiect barddoniaeth y Tree Charter ym Mharc Bute, Caerdydd. Ym mis Mawrth, daeth ei blwyddyn i ben wrth arwain preswyliadau i bobl ifanc mewn partneriaeth â Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Bu'r prosiect – Iaith y Tir – yn archwilio'r cysylltiadau rhwng llenyddiaeth a threftadaeth, gan gynorthwyo'r rheini a gymerodd ran i werthfawrogi'r safleoedd mewn ffyrdd newydd.

### Lansiad Cymru o *La Belle Sauvage* gan Philip Pullman

Ar 22 Hydref 2017, cydweithiodd Llenyddiaeth Cymru gyda Waterstones i drefnu lansiad Cymru o *La Belle Sauvage* gan Philip Pullman – nofel gyntaf hir-ddisgwyliedig y drioleg *The Book of Dust*. Cynhaliwyd y lansiad yn Neuadd Hoddinot y BBC i gynulleidfa o 350 o bobl, a chyfnod arwyddo 2 awr i ddilyn. Mae Philip Pullman yn Noddwr Llenyddiaeth Cymru.

## 'Creadigrwydd ac Amser i Freuddwydio'

Ar 16 Mawrth 2018, Croesawodd Llenyddiaeth Cymru Awdur Llawryfog Plant Waterstones, Lauren Child i Gaerdydd ar gyfer digwyddiad arbennig gyda Bardd Plant Cymru, Casia Wiliam, ac Awdur Ieuenctid Cymru, Sophie McKeand. Mae Lauren yn fwyaf adnabyddus am greu'r gyfres boblogaidd *Charlie and Lola*.

Bwriad y digwyddiad, a gynhaliwyd ar Gampws Cyncoed Prifysgol Metropolitan Caerdydd, oedd ysbrydoli cenhedlaeth newydd o awduron plant ac addysgwyr. Mewn sgwrs ddwyieithog, bu Lauren, Casia a Sophie yn trafod sut y maent yn hyrwyddo cariad at lenyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc o bob oed, ac yn rhannu eu dulliau amrywiol o ysbrydoli plant i gredu yn eu potensial creadigol.

Trefnwyd y digwyddiad gan Llenyddiaeth Cymru mewn partneriaeth â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd a Booktrust.

## Cyrsiau Ysgolion Tŷ Newydd

Yn 2017-18, croesawyd 7 ysgol ar gyrsiau preswyl i Dŷ Newydd a 3 ysgol ar gyrsiau undydd. Ysgolion lleol oedd y rhai undydd, yn cymryd rhan mewn gweithdai gyda'r awduron Myrddin ap Dafydd a Mari Emlyn. Daeth un o'r ysgolion preswyl o Geneva, gan fwynhau noson o adloniant a diwylliant Gymreig yng nghwmni Gwyneth Glyn a Twm Morys.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd croesawu pobl ifainc GISDA, grŵp elusennol sy'n gweithio â phobl ifainc sydd mewn perygl o ddigartrefedd, i ail-wneud gardd ar safle Tŷ Newydd a chymryd rhan mewn gweithdai ysgrifennu caneuon gyda'r llenor a'r cerddor Iwan Huws.

Yn ogystal, fe groesawyd grŵp o Feirniaid Theatr ifanc o Theatr Venue Cymru draw i gyflawni cwrs adolygu a beirniadu'r celfyddydau dan arweiniad Lyn Gardner a Tamara Harvey. Datblygwyd mentrau newydd yn ogystal gyda'r cwmnïoedd celfyddydol Mewn Cymeriad a'r Frân Wen lle cynigwyd encil i awduron ifanc i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu sgript. Gwelwyd hefyd y cwrs blynyddol i awduron ifainc yn mynd o nerth i nerth, gydag un disgybl yn mynd ymlaen i gymryd rhan yn Nosbarth Meistr Barddoniaeth y Gwanwyn gystal ei datblygiad fel bardd ifanc. Cynhaliwyd Cwrs Olwen yn Nhŷ Newydd unwaith eto eleni gyda llenorion buddugol cystadlaethau llên Eisteddfod yr Urdd yn derbyn cwrs rhad ac am ddim dan ofal Manon Steffan Ros ac Eurig Salisbury.

Cynigiwyd Tŷ Newydd fel cartref croesawgar unwaith eto i Sgwad 'Sgwennu Gwynedd, sef criw o lenorion ifainc talentog 9-14 oed; a Chriw Celf Gwynedd – sef clwb i blant â gallu arbennig yn y celfyddydau gweledol.

> *"Daethom â 19 o fechgyn i Dŷ Newydd fis Ionawr diwethaf ar gyfer sesiynau adolygu dwys yn awyrgylch prydferth, tawel Cricieth...Cawsom ganlyniadau gwych. Roedd pob un o'r grŵp yn derbyn graddau D neu is cyn y Nadolig, a gyda chymorth y preswyliad derbyniodd 69% ohonynt raddau A*-C. Fel ysgol, rydym ni'n hynod falch o'u cyrhaeddiad, felly hoffwn i ddiolch unwaith eto am yr arhosiad y cawsom yn Nhŷ Newydd."*
>
> ***– Sarah,*** *athro yn ysgol Woodchurch High, Wirral*

## Addysg

Mae Llenyddiaeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau presenoldeb cryf i lenyddiaeth ac ysgrifennu creadigol o fewn systemau addysg Cymru. Mae darllen beirniadol yn cyfrannu at sgiliau llythrennedd, cyfathrebu, empathi ac addysg ddiwylliannol, ond mae llenyddiaeth hefyd yn bwnc mynegiannol all gael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau traws-gwricwlwm a gall fod yn hynod werthfawr i lesiant personol a bywyd diwylliannol pobl ifanc.

I'r perwyl hwn, mae Llenyddiaeth Cymru wedi meithrin perthynas agos gydag Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru, sydd wedi arwain at gomisiynu gwaith ymgynghorol yn ystod cyfnod datblygu'r cwricwlwm newydd gan y Grŵp Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Fel rhan o'r gwaith parhaus hyn, ysgrifennwyd papur trafod gan Jude Brigley a nifer o addysgwyr ac awduron ar y testun *'Drws Dychymyg': Trafodaeth ar sut y gall llenyddiaeth ysbrydoli dyfodol llewyrchus i unigolion yng Nghymru.* Mae'r papur yn dadlau fod gan lenyddiaeth rôl bwysig o ran codi safonau a chau'r bwlch cyrhaeddiad. Trwy ddatblygu llenyddiaeth yn ei holl ffurfiau gwahanol, ar draws yr holl Feysydd Dysgu a Phrofiad, gallwn ddarparu'r disgyblion â'r wybodaeth sydd ei angen i fod yn ddinasyddion hyderus a pharod ar gyfer eu dyfodol.

## Cadwyn Heddwch

Derbyniodd Llenyddiaeth Cymru nawdd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri yn 2016 i gynnal prosiect Cadwyn Heddwch. Nod y prosiect oedd codi ymwybyddiaeth o heddwch yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ymysg plant cynradd. Gwahoddwyd tri awdur, sef Gwion Hallam, Sian Northey a Manon Steffan Ros, i arwain y prosiect gyda pymtheg ysgol gynradd yng Ngwynedd, gan gyrraedd dros 300 o ddisgyblion ac athrawon.

Yn ystod gweithdai mewn ysgolion ac ymweliadau ag archifdai lleol, ysgrifennodd y plant dros 450 o lythyrau heddwch, ac fe arddangoswyd detholiad ohonynt yn Eisteddfod Genedlaethol Môn 2017. Addaswyd pytiau o'r llythyrau i ffurf sgript gan fudiad Cymru dros Heddwch a'u cyhoeddi ar gyfrif trydar arbennig hyd at fis Mawrth 2018. Daeth y prosiect i ben ym mis Medi, lle claddwyd y llythyrau mewn capsiwl amser o dan goeden yng Ngardd Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd gyda'r nod o ledaenu neges o heddwch i blant y dyfodol.

## Prosiect Cynghrair y Pencampwyr

Cynhaliwyd Rownd Derfynol Cynghrair Pencampwyr Merched UEFA yn Stadiwm Dinas Caerdydd ym mis Mehefin 2017. I ddathlu'r digwyddiad arwyddocaol hwn daeth Llenyddiaeth Cymru a Sefydliad CPD Dinas Caerdydd ynghyd i gynnig gweithdai pêl-droed a barddoniaeth, wedi eu hysbrydoli gan Gynghrair y Pencampwyr ac unigolion benywaidd amlwg.

Bu merched o Ysgol Y Wern ac Ysgol Gynradd Kitchener yn cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi pêl-droed gyda Sefydliad CPDC cyn gweithio gyda'r bardd clare.e.potter dros gyfnod o dridiau er mwyn creu cerddi wedi eu hysbrydoli gan Gynghrair y Pencampwyr. Pen llanw'r prosiect oedd creu ffilm fer i ddathlu cyfraniad merched mewn chwaraeon. Rhannwyd y fideo ar sianelau ar-lein Llenyddiaeth Cymru a CPD Dinas Caerdydd.

> *Gellir gwylio'r fideo yma:*
> www.llenyddiaethcymru.org/lw-blog/llenyddiaeth-cymru-chwaraeon

## Rhyngwladol: Gweithio mewn partneriaeth er mwyn codi proffil awduron a llenyddiaeth Gymreig

### Bardd Cenedlaethol Cymru

Mae Bardd Cenedlaethol Cymru yn lysgennad diwylliannol ac yn rôl sy'n cynrychioli'r ysgrifennu gorau o Gymru ar lwyfan cenedlaethol a rhyngwladol, trwy arwain ymgyrchoedd yng Nghymru a pherfformio mewn digwyddiadau a gwyliau i godi proffil llenyddiaeth a llenorion o Gymru.

Yn ystod ei ail flwyddyn yn y rôl, fe deithiodd y bardd arobryn Ifor ap Glyn i Tsieina, Gwlad Pwyl, Gwlad Belg ac Iwerddon, gan rannu llwyfan gyda beirdd o bedwar ban byd. Roedd Ifor hefyd yn gyfrannwr allweddol i brosiect Barddoniaeth Colled (rhagor o wybodaeth isod).

> *Yn ei ail flwyddyn fel Bardd Cenedlaethol Cymru, fe gymerodd Ifor ap Glyn ran mewn dros 160 o weithgareddau.*

Darlledwyd rhaglen yn edrych yn ôl ar ei flwyddyn gyntaf yn y rôl fel Bardd Cenedlaethol ar S4C, ac fe ysgrifennodd erthyglau lu a chymryd rhan mewn rhaglenni radio a theledu yn sôn am agweddau gwahanol ar farddoniaeth Gymraeg.

Un o swyddogaethau amlwg Bardd Cenedlaethol Cymru yw nodi digwyddiadau allweddol yng Nghymru trwy ysgrifennu cerddi comisiwn a gaiff eu cyhoeddi ar wefan Llenyddiaeth Cymru. Ar 8 Hydref 2017, darllenwyd monolog Ifor ap Glyn, 'Llythyr Mamgu', a gomisiynwyd gan Ganolfan Mileniwm Cymru, gan yr actor Siân Philips yn ystod Cyngerdd Goffa Aberfan a ddarlledwyd yn fyw ar S4C gyda rhaglen o uchafbwyntiau ar BBC2 Wales.

### Barddoniaeth Colled

I goffau'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r bardd o Gymru, Hedd Wyn, cynhaliodd Llenyddiaeth Cymru raglen ryngwladol o'r enw Barddoniaeth Colled. Ariannwyd y cynllun gan Raglen Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf Llywodraeth Cymru *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918, gyda Llywodraeth Fflandrys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn bartneriaid.

Roedd y rhaglen blwyddyn o hyd yn cynnwys sawl elfen: noson o farddoniaeth, cerddoriaeth a thrafodaeth ar Hedd Wyn a beirdd y Rhyfel Byd Cyntaf yn Passa Porta, Tŷ Rhyngwladol Llenyddiaeth ym Mrwsel; preswyliad llenyddol i awdur o Gymru, Nerys Williams, ym Mrwsel; preswyliad llenyddol i awdur o Fflandrys, Peter Theunynck, yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, Llanystumdwy; noson farddoniaeth i gofio Hedd Wyn a beirdd y Rhyfel Byd Cyntaf yn Nulyn; gweithdai barddoniaeth i ddisgyblion ysgolion uwchradd dwyrain Dulyn gan Ifor ap Glyn; a'r sioe farddoniaeth amlgyfrwng, 'Y Gadair Wag'. Roedd y sioe, a ysgrifennwyd a'i pherfformiwyd gan Fardd Cenedlaethol Cymru, Ifor ap Glyn, yn edrych ar hanes Hedd Wyn o'r newydd, gan archwilio natur colled, ffiniau a hunaniaeth. Aeth y sioe ar daith ym mis Medi 2017 gan gael ei llwyfannu mewn pum lleoliad yng Nghymru a dau yn Iwerddon.

## Y Cwm, Y Ddinas, Y Pentref

Cydweithiodd Llenyddiaeth Cymru gyda Parthian Books, Wales Arts Review a Bee Books yn Kolkata, India ar gyfer prosiect lenyddol rhwng Awduron o Gymru ac India o'r enw Y Cwm, Y Ddinas, Y Pentref. Fe'i gefnogwyd gan Gronfa India Cymru Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a British Council.

Yn ystod Chwefror 2017 aeth tri awdur o Gymru, Natalie Ann Holborow, Siôn Tomos Owen a Sophie McKeand, ar ymweliad tair wythnos o hyd i India. Yn ystod yr ymweliad cawsant fynychu Ffair Lyfrau Kolkata, cymryd rhan mewn digwyddiadau, darlleniadau a phrosiectau amrywiol, a chydweithio â thri awdur Indiaidd. Ym Mehefin 2017 daeth yr awduron o India, Arunava Sinha, Aniesha Brahma a Srijato Bandyopadhyay, i Gymru am dair wythnos gan gymryd rhan mewn digwyddiadau a gwyliau amrywiol yng Ngŵyl y Gelli, Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, a Gŵyl Lenyddol Llansteffan.

## Ffair Lyfrau Llundain

Cydweithiodd y Grŵp Rhanddeiliaid Llenyddiaeth Ryngwladol yng Nghymru er mwyn creu stondin ar-y-cyd i Gymru yn Ffair Lyfrau Llundain 2018. Mae'r grŵp yn cynnwys saith sefydliad o Gymru sy'n gweithio yn rhyngwladol yn y sector lenyddol. Y saith sefydliad yw Cyngor Celfyddydau Cymru/Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, British Council Cymru, Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau, Llenyddiaeth Cymru, Cyfnewidfa Lên Cymru, PEN Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru. Ffurfiwyd y grŵp er mwyn sicrhau gwell cydweithio a chyfathrebu er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd rhyngwladol i awduron o Gymru, yn ogystal ag amlygu llenyddiaeth o Gymru yn rhyngwladol.

Roedd y presenoldeb-ar-y-cyd hwn wedi darparu cyfleoedd i ymwelwyr â'r ffair, cynrychiolwyr gwleidyddol o wledydd ledled y byd ac unigolion sy'n gweithio yn y diwydiant gwrdd â rhai o brif gyhoeddwyr a sefydliadau llenyddol Cymru a darganfod rhagor am y llyfrau a gafodd eu harddangos ar y stondin. Roedd hefyd yn hwb ar gyfer sawl trafodaeth hawliau a gwerthiant, gan gyflwyno ysgrifennu o Gymru i gynulleidfa ehangach.

## Tandem Europe

Dewiswyd Llenyddiaeth Cymru i gynrychioli Cymru yn y rhaglen uchel ei barch, Tandem Europe. Mae Tandem Europe yn raglen dysgu a gweithredu traws-ffiniau sydd wedi'i seilio ar bartneriaethau traws-ddiwylliannol a traws-ffiniau. Hyd yma mae'r cynllun wedi galluogi i gynrychiolwyr o Llenyddiaeth Cymru ymweld â Bwlgaria, Portiwgal a Sbaen i gysylltu a rhannu arfer da a dysg gyda phartneriaid diwylliannol ledled Ewrop gan archwilio sut y gellid defnyddio creadigrwydd er mwyn annog datblygiad cymdeithasol.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Solidarios Para el Dessarrollo ym Madrid i ddatblygu prosiect blwyddyn o hyd o'r enw A Taste for Life / Gusto por la Vida / Blas ar Fywyd, lle mae unigolion hŷn yng Nghymru ac yn Sbaen yn rhannu ryseitiau, straeon ac atgofion gyda beirdd o Gymru, fydd yn cyfansoddi cerddi a ysbrydolwyd gan y bwyd a'r straeon.

## Creadigrwydd Digidol: Defnyddio creadigrwydd digidol i hyrwyddo ac annog rhagor o bobl i ymgysylltu â llenyddiaeth

### Her 100 Cerdd

I ddathlu Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth 2017 ar ddydd Mercher 27 Medi, fe heriodd Llenyddiaeth Cymru bedwar bardd i gyfansoddi 100 o gerddi gwreiddiol mewn 24 awr. Dyma'r pumed tro i'r Her gael ei chynnal. Y pedwar bardd a gymerodd ran yn yr her eleni oedd Karen Owen, Rhys Iorwerth, Iestyn Tyne a Gwynfor Dafydd. Daeth y pedwar at ei gilydd i Ganolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd i ymgymryd â'r gwaith cyfansoddi.

Mae'r cerddi a gyfansoddwyd yn ystod yr her yn darparu darlun unigryw o Gymru ar y diwrnod hwnnw – ei gwleidyddiaeth, diddordebau, newyddion a'i diwylliant.

Cafwyd oddeutu 130 o geisiadau gwahanol am gerddi, a hynny drwy Facebook, Twitter, ebost a negeseuon personol i'r beirdd. Cyhoeddwyd yr holl gerddi ar wefan Llenyddiaeth Cymru cyn cael eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol, mewn cylchlythyrau ac ar blatfformau allanol.

> *Rhwng 27 – 29 Medi cafwyd 110,743 argraff organig ar Twitter @LlenCymru, a dros 16,000 o ymweliadau â gwefan Llenyddiaeth Cymru.*

### Cynnwys Digidol Unigryw

Cydweithiodd Llenyddiaeth Cymru â nifer o bartneriaid yn ystod 2017-18 i greu rhagor o gynnwys unigryw er mwyn dangos ei gweithgareddau i gynulleidfaoedd ehangach ac anodd eu cyrraedd. Mae'r partneriaid hyn yn cynnwys Sefydliad Pêl Droed Dinas Caerdydd; Ystâd Lenyddol Roald Dahl; Atal Anrhefn Hinsawdd Cymru; Croeso Cymru; Cymru Dros Heddwch; Weston Jerwood; Write4Word yn ogystal â nifer o awduron ac artistiaid. Mae'r cynnwys a grëwyd yn cynnwys fideos, ffotograffau, cofnodion blog, cyfrifon storïol ar Twitter, a recordiadau sain.

# Datblygiad Busnes

## Adolygiad Llywodraeth Cymru ar Gefnogaeth i Gyhoeddi a Llenyddiaeth yng Nghymru, Mehefin 2017

Cyhoeddwyd Adolygiad Llywodraeth Cymru ar Gefnogaeth i Gyhoeddi a Llenyddiaeth yng Nghymru a gadeiriwyd gan yr Athro Medwin Hughes ar 17 Mehefin 2017. Mae'r adolygiad yn cynnwys argymhellion i drosglwyddo nifer o gyfrifoldebau Llenyddiaeth Cymru i Gyngor Llyfrau Cymru.

Roedd gan Llenyddiaeth Cymru amheuon dwys am yr argymhellion a'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'w cefnogi, yn ogystal â'r portread anwybodus o'r sefydliad. Cyflwynwyd yr amheuon hyn i Llywodraeth Cymru yn ogystal â Phwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Neilltuwyd amser nifer o uwch reolwyr a staff Llenyddiaeth Cymru (amcangyfrifwyd 1,200 awr gyda gwerth oddeutu £24,000) ar gyfer darparu gwrth-dystiolaeth, gwrthbrofion ac ymatebion i'r adolygiad. Yn ogystal, cafodd yr amser a dreuliwyd ar y gwaith hwn effaith ar allu'r sefydliad i gyflawni gweithgaredd, ac mae'n debygol iawn fod yr ansicrwydd a achoswyd gan argymhellion yr adolygiad wedi dylanwadu ar ganlyniad ceisiadau nawdd a grant oedd dan ystyriaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Mae enghreifftiau o effaith negyddol yr adolygiad ar enw da Llenyddiaeth Cymru, gweithgareddau codi arian, cyflawni rhaglenni ac amser a baich gwaith staff wedi eu cyfrifo a'u cyflwyno i Archwilwyr y sefydliad ac mae braslun ohonynt yn Adolygiad Ariannol y ddogfen hon ar dudalen 28.

Nid yw'n ddisgwyliedig y bydd argymhellion yr adolygiad yn cael eu gweithredu. Serch hynny, nid yw'r penderfyniad terfynol wedi'i gyhoeddi ar ddyddiad cyhoeddi'r ddogfen hon, ac felly mae elfen o ansicrwydd yn bodoli ynglŷn â'r sefyllfa.

## Gwobr Ysgoloriaeth Greadigol Weston Jerwood

Yn 2017-18, gwobrwywyd Llenyddiaeth Cymru ag Ysgoloriaeth greadigol Weston Jerwood. Dyma raglen sy'n cefnogi sefydliadau celfyddydol ar draws y DU i ehangu eu dulliau o recriwtio a datblygu talent er mwyn sicrhau gweithlu amrywiol, ac adeiladu ar eu cynyrchiadau artistig. Mae Llenyddiaeth Cymru yn un o ddim ond dau sefydliad o Gymru a wobrwywyd â'r ysgoloriaeth yn ystod y rownd hwn, sydd werth £13,046.

Crëwyd rôl newydd – Swyddog Datblygu a Chyfathrebu – a penodwyd aelod o staff i'r rôl yn Chwefror 2018. Gorchwyl yr aelod staff newydd yw pontio'r timoedd Datblygu a Chyfathrebu, a chryfhau'r cysylltiadau rhwng dulliau gwerthuso'r sefydliad a'r cyfathrebu mewnol ac allanol. Y nod yw datblygu ffyrdd newydd, mwy effeithiol o gyfathrebu effaith gwaith Llenyddiaeth Cymru.

Fel rhan o'r rhaglen, mynychodd aelod o'r Uwch Dîm Rheoli weithdy amrywiaeth mewn recriwtio. O ganlyniad fe addaswyd y broses recriwtio er mwyn cynyddu cyrhaeddiad, hygyrchedd ac apêl hysbysebion swyddi yn y dyfodol, ac i roi rhagor o bwyslais ar botensial ymgeiswyr lefel mynediad sydd yn llai tebygol o gael profiad perthnasol yn y maes. Mae cydraddoldeb mewn cynrychiolaeth ymysg staff y sefydliad yn hanfodol ar gyfer cynyddu amrywiaeth ei gynulleidfaoedd a'i raglenni.

## Polisïau a Gweithdrefnau Adnoddau Dynol

Mae Polisïau AD y sefydliad yn cael eu hadolygu a'u hawdurdodi gan y Bwrdd Rheoli yn flynyddol. Yn ystod 2017-18 datblygwyd system Adolygu Datblygiad Proffesiynol newydd a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rheoli. Caiff y system newydd ei weithredu yn gynnar yn 2018-19.

## Datblygiad Masnachol Canolfan Tŷ Newydd

Roedd 2017-18 yn flwyddyn fusnes lwyddiannus i Ganolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd. Gwnaethpwyd rhagor o ymdrech i sicrhau incwm o ffynonellau tu hwnt i archebion cyrsiau er mwyn gwneud y mwyaf o'r dyddiau pan fyddai'r tŷ yn wag. Llogwyd y tŷ ar 18 achlysur – oedd yn cynnwys un priodas – y mwyafrif ohonynt drwy'r asiantaeth llogi gwyliau, Under the Thatch. Yn ogystal, mae nifer o gymdeithasau a sefydliadau wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau caeedig yn y tŷ, gan gynnwys cynadleddau, cyfarfodydd a theithiau. Mae rhain yn cynnwys Cyngor Gwynedd, Cymdeithas Edward Llwyd, y British Gestalt Journal a NAWE.

Derbyniwyd grant hefyd gan y Pilgrim Trust tuag at rai o nodweddion mwyaf brys cynllun cadwraeth yr adeilad rhestredig Gradd II*. Bydd Llenyddiaeth Cymru yn cydweithio â phenseiri Chambers Conservation i weithredu'r cynlluniau hyn yn 2018-19.

## Monitro a Gwerthuso

Mae'r Swyddog Datblygu a Chyfathrebu (a benodwyd yn dilyn derbyn Gwobr Ysgoloriaeth Greadigol Weston Jerwood – gweler uchod) wedi ehangu a datblygu'r system newydd a fanylwyd yn Strategaeth Monitro a Gwerthuso Llenyddiaeth Cymru ar gyfer 2016-2019. Mae'r system hon, a fydd yn barod i'w gweithredu erbyn diwedd blwyddyn fusnes 2018-19, yn gosod casglu a dadansoddi data gweithgaredd o fewn modelau cyflawni presennol. Bydd hefyd yn gweithredu fel olwyn a fydd yn cyfathrebu'r hyn a gyflawnwyd a'r gwersi a ddysgwyd yn fwy effeithiol i Uwch Reolwyr a'r Tîm Busnes (gan gynnwys staff Llywodraethu, Datblygu a Chyfathrebu).

Bydd y broses yn dylanwadu ar benderfyniadau strategol, gweithredol a rhaglennu. Yn ogystal bydd yn galluogi dadansoddiad manwl o effaith y sefydliad er mwyn trosglwyddo'r wybodaeth i'r Bwrdd Rheoli a rhanddeiliaid gan gynnwys noddwyr, partneriaid, awduron a chynulleidfaoedd.

Yn Ystod 2017-18, cyfrifwyd gwerth ariannol ychwanegol Llenyddiaeth Cymru. Am bob £1 a fuddsoddir yn Llenyddiaeth Cymru gan Gyngor Celfyddydau Cymru, cynhyrchir £2.50 ychwanegol – sy'n gyfanswm o £1.827M bob blwyddyn. Comisiynwyd dyluniad i gyfathrebu hyn a ellid ei weld ar dudalen 27.

## Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Bydd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn dod i rym ar 25 Mai 2018. Mae Llenyddiaeth Cymru wedi datblygu rhybuddion preifatrwydd newydd i'r staff ac i'r cyhoedd sy'n cynnwys diffiniadau ar y sail cyfreithlon dros brosesu data, a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais am fynediad at ddata, adolygu data, cyfyngiadau data a dileu data. Caiff system Rheoli Perthnasau Cwsmer (Customer Relationship Management) ei lansio yn ystod 2018-19 er mwyn hwyluso cydymffurfiad Llenyddiaeth Cymru a'r Rheoliad, a fydd yn disodli'r gronfa ddata bresennol.

## Recriwtio Aelodau i'r Bwrdd Rheoli

Yn dilyn ymgyrch recriwtio cyhoeddus, cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer Cyfarwyddwyr i'r Bwrdd Rheoli ar 21 Mawrth 2018. Apwyntiwyd naw Cyfarwyddwr newydd – bydd saith yn ymuno â Bwrdd Rheoli Llenyddiaeth Cymru yn y Cyfarfod Bwrdd ar 16 Mai 2018, a bydd dau aelod pellach yn ymuno ym mis Medi 2018 a Chwefror 2019. Mae pecyn anwytho ar gyfer Cyfarwyddwyr wedi ei ddatblygu, a bydd cwrs hyfforddiant ar lywodraethu yn digwydd cyn y Cyfarfod Bwrdd ar 16 Mai 2018. Gellid darllen rhagor am Aelodau Bwrdd Rheoli Llenyddiaeth Cymru ar: www.llenyddiaethcymru.org/about/bwrdd-rheoli

## Cynllun Gweithredu Llywodraethu

Cwblhawyd nifer o bwyntiau gweithredu Cynllun Gweithredu Llywodraethu Llenyddiaeth Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18. Ymhelaethwn arnynt isod:

### i. Bwrdd Rheoli

Datblygwyd adnoddau hyfforddi ac anwytho ar gyfer Bwrdd Rheoli Llenyddiaeth Cymru. Bydd newidiadau a gynhigiwyd i amlder ac amseru cyfarfodydd Bwrdd Llywodraethu yn dod i rym yn 2018-19. Yn ogystal, caiff is-bwyllgorau cefnogi eu sefydlu. Mae datganiad gwrthdaro buddiannau a chofrestr buddiannau ar gyfer Cyfarwyddwyr y Bwrdd Rheoli wedi eu hadolygu a caent eu gosod fel adnodd ar wefan Llenyddiaeth Cymru yn 2018-19.

### ii. Erthyglau Cymdeithasu

Bydd swyddogion gweithredol y sefydliad yn cwrdd â Geldard's LLP yn 2018-19 i ddechrau'r broses o ddiweddaru ac adolygu Erthyglau Cymdeithasu presennol Llenyddiaeth Cymru. Bydd rhain yn cynnwys adolygiadau deddfwriaethol a datblygiadau i amcanion yr elusen.

### iii. Polisi cronfeydd wrth gefn

Datblygwyd polisi cronfeydd wrth gefn yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18 er mwyn cynyddu'r swm ariannol sydd gan Llenyddiaeth Cymru wrth gefn. Caiff y polisi ei gyflwyno i'r Bwrdd Rheoli yng nghyfarfod y Bwrdd Rheoli ar 16 Mai 2018.

### iv. Cofrestr Risg

Adolygwyd y Gofrestr Risg yn ystod 2017-18 i ddarparu rhagor o fanylder. Bydd y swyddogion gweithredol yn gweithio ag ymgynghorydd fel rhan o Raglen Wytnwch Cyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu system mwy deinamig sy'n cyfuno'n well â threfniadau gweithio mewnol.

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae Llenyddiaeth Cymru yn adolygu ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar hyn o bryd ac fe gaiff ei gyflwyno i Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2018-19. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys targedau cynrychiolaeth a cyflogadwyedd. Caiff ei ddatblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn ariannol ganlynol, a caiff ei gynnwys yng Nghynllun Strategol Llenyddiaeth Cymru ar gyfer 2019 - 2022.

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

**Am bob £1 a fuddsoddir yn Llenyddiaeth Cymru gan Gyngor Celfyddydau Cymru, cynhyrchir £2.50 ychwanegol**

**Cyfanswm o £1.827M***

Crëir £114,000 ychwanegol trwy Awduron ar Daith

Crëir £308,000 ychwanegol trwy godi arian

Crëir £326,000 ychwanegol trwy Ganolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

Crëir £910,000 o incwm i eraill trwy bartneriaethau

Crëir £109,000 ychwanegol trwy weithgarwch arall gan gynnwys digwyddiadau mawr, Llyfr y Flwyddyn a theithiau llenyddol

Gwerth £60,000 ychwanegol o gymorth trwy wasanaeth a nwyddau a ddarparwyd i eraill

Mae Ysgoloriaethau Awduron yn creu incwm ychwanegol trwy werthiant llyfrau e.e. derbyniodd A Girl in the Red Coat gan Kate Hamer Ysgoloriaeth Awdur o £5000 gan werthu 75,911 o gopïau yn y DU gwerth £400,252**

*Yn seiliedig ar ffigyrau 2015-2017
** Yn seiliedig ar wybodaeth gwerthiant DU a ddarparwyd gan Nielsen BookData

# Adolygiad Ariannol

## Trosolwg

Mae Llenyddiaeth Cymru yn aelod o Bortffolio Celfyddydau Cymru Cyngor Celfyddydau Cymru ac yn ddyrannwr Loteri, sy'n gyfrifol am rannu arian drwy Awduron ar Daith, Ysgoloriaethau i Awduron a'r Cynllun Mentora. Mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio'n uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru, sy'n cefnogi prosiectau megis dathliadau Roald Dahl 100 Cymru a'r wefan dwristiaeth www.gwladychwedlau.cymru.

Caiff yr arian ar gyfer Portffolio Celfyddydau Cymru ei gadarnhau'n flynyddol, yn dilyn patrwm cytundeb Cyngor Celfyddydau Cymru ei hun â Llywodraeth Cymru. Ar gyfer 2017-18, cafodd cyllid Portffolio Celfyddydau Cymru Llenyddiaeth Cymru ei adfer i lefel ariannu 2015-16. Mae hyn yn gweld cyllid craidd Cyngor Celfyddydau Cymru yn codi o £717,163 yn 2016-17 i £742,264 yn 2017-18. Mae Ysgoloriaethau i Awduron, Cynlluniau Mentora ac Awduron ar Daith yn parhau i gael eu hariannu trwy Gytundeb Dyrannu Loteri.

## Adolygiad ar Gefnogaeth i Gyhoeddi a Llenyddiaeth yng Nghymru

Cafodd Adolygiad ar Gefnogaeth i Gyhoeddi a Llenyddiaeth yng Nghymru Llywodraeth Cymru effaith sylweddol ar enw da, gweithgareddau codi arian, darpariaeth rhaglenni ac amser a phwysau gwaith staff yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r effaith hwnnw'n cynnwys:

- Neilltuwyd amser nifer o staff Llenyddiaeth Cymru (amcangyfrifwyd 1,200 awr gyda gwerth oddeutu £24,000) ar gyfer darparu gwrth-dystiolaeth, gwrthbrofion ac ymatebion i'r adolygiad.
- Cafodd yr amser a dreuliwyd ar y gwaith hwn effaith ar allu'r sefydliad i gyflawni gweithgaredd.
- Gostyngiad at y cyfan yn y grantiau ychwanegol a sicrhawyd o £202,000 yn 2016-17 i £106,000 yn 2017-18, yn rhannol oherwydd gostyngiad yn y ceisiadau a gyflwynwyd.
- Bu un cais am grant ac un cais am nawdd – cyfanswm o £40,000 – yn aflwyddiannus, fwy na thebyg fel canlyniad uniongyrchol i argymhellion yr adroddiad a'r niwed i enw da'r sefydliad a ddeilliodd ohono.
- Oedi sylweddol cyn i Lenyddiaeth Cymru allu dechrau Rhaglen Wytnwch Cyngor Celfyddydau Cymru. Cafodd hyn gryn effaith ar ei allu i amserlennu gwaith gweithredol a llywodraethu pwysig a brys.
- Costau dylunio, cyfieithu ac argraffu o £978.31.
- Oedi cyn cyflawni rhai gweithgareddau a amserlenwyd (e.e. Cymru Ryfedd a Chyfareddol, Llên Pawb, Ffrindiau Darllen)

## Codi Arian

Yn 2017-18 llwyddodd Llenyddiaeth Cymru i gyflawni'r nod a amlinellwyd yn ei Strategaeth Codi Arian 2016-2019 o adnabod potensial ffynonellau incwm amgen. Gan adeiladu ar ganlyniadau ceisiadau grant i ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol yn 2016-17, mae ymdrechion i gynyddu incwm masnachol wedi bod yn llwyddiannus yn 2017-18. Dyma weld Llenyddiaeth Cymru yn gyrru'r cynllun yn ei flaen i gyrraedd dibyniaeth o 70%.

Mae uchafbwyntiau'n cynnwys:

### Incwm Masnachol

- *Archebion i logi Tŷ Newydd.* Yn dilyn ailddatblygiad y ganolfan yn 2015-17, a chadarnhad tîm newydd Tŷ Newydd, mae archebion i logi'r tŷ ar gyfer gwyliau a phriodasau yn ystod cyfnodau gweigion yn ffynhonnell incwm cynyddol.
- Cyllid llogi Tŷ Newydd, gyda chynnydd o 3000% ers 2014-15 a chynnydd o 156% ers 2016-17:

| 2014-2015 | 2015-2016 | 2016-2017 | 2017-18 |
|---|---|---|---|
| £815 | £8,085 | £10,384 | £26,249 |

- *Pennu gwerth rôl Llenyddiaeth Cymru fel hwyluswr sector.* Yn 2017 arwyddwyd cytundeb tair mlynedd gyda Phrosiectau Pop Up CIC er mwyn cyflawni gweithgareddau yng Nghymru. Yn yr un modd, comisiynwyd Llenyddiaeth Cymru gan The Reading Agency yn gynnar yn 2017 i arwain eu cynllun Ffrindiau Darllen yng Nghymru, a gan Llywodraeth Cymru y hydref 2017 i ymgynghori ar lenyddiaeth mewn addysg yn ystod datblygiad y cwricwlwm newydd. Mae rhain yn esiamplau cryf o'r modd y mae Llenyddiaeth Cymru yn pennu gwerth ei arbenigedd o fewn y sector, sydd wedi cynhyrchu cyfanswm o £34,000 yn 2017-18, a £85,500 pellach erbyn diwedd 2019-20.
- *Nwyddau.* Mae Llenyddiaeth Cymru wedi dechrau elwa ar botensial ei weithgaredd twristiaeth lenyddol (e.e. www.gwladychwedlau.cymru a Cymru Ryfedd a Chyfareddol). Argraffwyd 200 print giclée wedi eu arwyddo o Furlun Tŵr Dŵr Rheilffordd Ganolog Caerdydd Pete Fowler (Pris - £100 heb ffrâm, £150 mewn ffrâm) ac maent ar gael i'w prynu, yn ogystal â nwyddau eraill (megis bag cotwm). Roedd incwm nwyddau twristiaeth lenyddol yn ystod 2017-18 yn £2,600.
- *Incwm archebion cyrsiau Tŷ Newydd.* Trwy farchnata effeithiol ynghyd â strwythur brisio glir a chynnydd yn yr archebwyr sy'n dychwelyd, gwelwyd cynnydd o 65% mewn incwm o archebion cyrsiau Tŷ Newydd ers 2014-15:

| 2014-2015 | 2015-2016 | 2016-2017 | 2017-18 |
|---|---|---|---|
| £102,716 | £144,490 | £152,814 | £169,342 |

### Nawdd Corfforaethol ac Ymddiriedolaethau a Sefydliadau Elusennol

- *Ceisiadau i Ymddiriedolaethau a Sefydliadau Elusennol.* Yn ei ail flwyddyn, mae'r Tîm Codi Arian wedi datblygu'r gweithdrefnau a sefydlwyd yn 2016-17 trwy ganolbwyntio ar geisiadau nawdd mawr (dros £30,000). Anogwyd staff y Tîm Rhaglenni i wneud ceisiadau am grantiau gweithgaredd llai (o dan £10,000), ac mae'r Tîm Codi Arian ynghyd â'r Tîm Rhaglenni wedi cyflawni ceisiadau am grantiau canolig (h.y. rhwng £10,000-£30,000). Llwyddwyd i sicrhau £99,000 mewn incwm trwy grantiau cystadleuol, o gymharu â £139,920 yn 2016-17. Yn anffodus, bu un cais-ar-y-cyd sylweddol, a gyrhaeddodd yr 2il gam, yn aflwyddiannus.

- *Nawdd Corfforaethol.* Mae ymdrechion i ddechrau perthnasau sy'n dwyn elw â noddwyr corfforaethol wedi bod yn gymharol lwyddiannus. Rhoddodd FOR Cardiff gyfraniad ariannol sylweddol tuag at Murlun y Tŵr Dŵr Rheilffordd Ganolog Caerdydd, a cafwyd cefnogaeth mewn nwyddau gan Trenau Arriva Cymru, Network Rail a Gardners ar gyfer yr un cynllun. Mae ceisiadau am nawdd corfforaethol ar gyfer Gwobr Llyfr y Flwyddyn wedi eu cyflwyno, ac mae nifer o noddwyr wedi parhau i fod yn ffyddlon i'r wobr.

Bydd y gwaith yn ystod 2018-19 yn cynnwys datblygu ffynonellau incwm corfforaethol ymhellach, gan gynnwys creu Cynllun Partneriaethau Busnes. Bwriedir hefyd wneud rhagor o refeniw rhoddion gwirfoddol megis cymynroddion, cynllun Cyfeillion, ac ymgyrchoedd rhoddion digidol. Bydd rhain yn darparu rhagor o amrywiaeth yn ein ffynonellau cyllido ac yn atgyfnerthu ein statws elusennol ymysg cynulleidfaoedd.

## Polisi Cronfeydd wrth Gefn

Nod Llenyddiaeth Cymru yw sicrhau bod digon o arian yn ei gronfeydd anghyfyngedig i gyflawni swyddogaethau a chostau craidd am gyfnod o chwe mis. Mae Llenyddiaeth Cymru yn cynllunio i gynyddu ei gronfeydd anghyfyngedig o leiaf £10,000 bob blwyddyn dros y 5 mlynedd nesaf.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, balans yr arian wrth gefn anghyfyngedig oedd £256,220. Roedd yr arian wrth gefn rhydd yn £159,881, sy'n cynnwys arian wrth gefn anghyfyngedig gan eithrio arian wrth gefn sydd wedi'i glustnodi (£69,047) ac Asedau Sefydlog (£27,292).

## Polisi ac Amcanion Buddsoddi

Polisi Llenyddiaeth Cymru yw buddsoddi'n ddoeth er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o gyfalaf gweithio dros ben. Caiff llif arian ac asedau cyfredol eu monitro er mwyn gwneud hyn.

Rhoddir sylw a diwydrwydd dyledus i lefel y buddsoddiad ac ni chymerir unrhyw risgiau cysylltiedig ychwanegol. Y nod yw defnyddio arian ychwanegol a gronnir drwy fuddsoddiad i hyrwyddo amcanion yr elusen drwy gynhyrchu'r adenillon ariannol gorau posibl.

## Rheoli Risg

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried y prif risgiau busnes a gweithredol strategol sy'n wynebu'r elusen a gallant gadarnhau fod systemau wedi'u sefydlu i liniaru'r risgiau hynny. Y prif risgiau a nodwyd yw:

- **Nawdd Cyhoeddus: Mae cymorth grantiau a ffynonellau o arian cyhoeddus yn lleihau, ac mae cytundebau nawdd blynyddol yn atal y sefydliad rhag cynllunio yn hir dymor**

  Er mwyn lliniaru'r risg hon, bydd Llenyddiaeth Cymru yn: rheoli a chynnal ei berthynas â Chyngor Celfyddydau Cymru; adnabod y pwysau sydd ar CCC gan Lywodraeth Cymru yn nhermau targedau a sicrhau gwerth am arian ac enillion ar fuddsoddiad; sicrhau fod gweithgaredd yn gyson â blaenoriaethau noddwyr; gweithredu'r Strategaeth Codi Arian gyda thargedau pendant ar gyfer amrywio a chynyddu ffynonellau incwm; chwilio am nawdd o ffynonellau amgen yn rheolaidd; paratoi cyllidebau blynyddol yn seiliedig ar wahanol senarios ariannu; sicrhau gweithdrefnau ariannol cadarn a thryloyw; cyfathrebu gwaith Llenyddiaeth Cymru i Weinidogion y Llywodraeth, Aelodau Pwyllgor ac Aelodau Cynulliad fel mae'n addas; meithrin perthnasau gweithio da gydag adrannau yn Llywodraeth Cymru; sicrhau fod y sefydliad yn diweddaru ei hun i gyd-fynd â pholisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru.

- **Methu â chydymffurfio â deddfwriaethau a rheoliadau sy'n weithredol ar weithgareddau, maint a strwythur yr elusen**

  Er mwyn lliniaru'r risg hon, bydd Llenyddiaeth Cymru yn: adnabod gofynion cyfreithiol a rheoliadol allweddol a'u monitro'n rheolaidd; gosod cyfrifoldebau ar gyfer gweithdrefnau cydymffurfio; adrodd ar unrhyw faterion cydymffurfio i'r Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd Rheoli a gosod camau i sicrhau cydymffurfiad; creu cynllun cyfathrebu pe byddai unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn codi; sicrhau cydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol sy'n dod i rym ar 25 Mai 2018, ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd Rheoli.

- **Lleihad mewn ffigyrau cyfranogiad o ganlyniad i weithgareddau mwy penodol, dwys**

  Er mwyn lliniaru'r risg hon, bydd Llenyddiaeth Cymru yn: casglu a chyflwyno data cynulleidfa a chyfranogiad perthnasol mewn modd ystyrlon; cyfathrebu amcanion Llenyddiaeth Cymru i gysylltu ag unigolion nad ydynt yn ymwneud â llenyddiaeth, a hynny trwy'r Cynllun Busnes, strategaethau a'r Strategaeth Cyfathrebu a Marchnata; parhau â sgyrsiau gyda CCC parthed y modd y caiff ystadegau eu casglu a'u rhannu; gweithredu dulliau gwerthuso ystyrlon, dysgu o'r canfyddiadau a'u defnyddio i gynllunio; datblygu ffyrdd newydd o gyflwyno data a straeon effaith.

- **Atebolrwydd a Chyfrifoldeb wrth Weithio gyda Phlant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed**

  Er mwyn lliniaru'r risg hon, bydd Llenyddiaeth Cymru yn: diweddaru'r Polisi Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed yn flynyddol, a'i gymeradwyo gan y Bwrdd; darparu hyfforddiant proffesiynol rheolaidd a/neu arbenigol i staff ac ymarferwyr sy'n gweithio â phlant ac oedolion sy'n agored i niwed; cyflawni gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar staff ac ymarferwyr ble bo'r angen; dilyn canllawiau arfer da a gaiff eu cyhoeddi gan asiantaethau achredig megis Plant yng Nghymru.

# Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

## Cynllun Strategol 2019 - 2022

Bydd Cynllun Strategol Llenyddiaeth Cymru 2019 - 2022 yn cael ei gwblhau erbyn gaeaf 2018. Yn ystod y flwyddyn fusnes nesaf, bydd Llenyddiaeth Cymru yn cyflawni ymgynghoriad â'r sector lenyddol er mwyn ysbrydoli'r broses gynllunio strategol. Fe gefnogir yr ymgynghoriad hwn gan Raglen Wytnwch Cyngor Celfyddydau Cymru. Fel rhan o'r ymgynghoriad, fe sefydlir rhwydwaith o Ffrindiau Beirniadol fydd yn cynnwys nifer o unigolion o gefndiroedd amrywiol a chanddynt arbenigedd mewn meysydd gwahanol. Byddant yn darparu adborth adeiladol ar waith Llenyddiaeth Cymru yn ystod 2016-19 a'i syniadau ar gyfer y dyfodol, adolygu drafftiau o Gynllun Strategol newydd y sefydliad, a helpu mesur llwyddiant ei waith yn ystod 2019-2022. Yn ogystal, bydd Llenyddiaeth Cymru yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, gan gasglu barn ar syniadau rhaglenni a blaenoriaethau strategol newydd. Bydd y broses hon yn galluogi Llenyddiaeth Cymru i barhau i ganolbwyntio ar yr hyn y mae'n ei gynnig, gan gryfhau'r berthynas rhwng ei weithgaredd â'i genhadaeth a'i weledigaeth.

## Rhaglen Wytnwch Cyngor Celfyddydau Cymru

Cafodd Llenyddiaeth Cymru ei dderbyn i fod yn rhan o Rhaglen Wytnwch Cyngor Celfyddydau Cymru, sy'n ymdrechu i gynyddu gwytnwch sefydliadau celfyddydol yn erbyn bygythiadau amrywiol. Cafwyd oediad cyn gallu dechrau'r rhaglen yn dilyn cyhoeddiad Adolygiad ar Gefnogaeth i Gyhoeddi a Llenyddiaeth yng Nghymru Llywodraeth Cymru. Mae meysydd penodol i'w datblygu wedi eu hadnabod, a bydd Llenyddiaeth Cymru yn cydweithio â Staff Cysylltiol Cyngor Celfyddydau Cymru ar dri maes: ymgynghoriad yn ystod cyfnod datblygu Cynllun Strategol 2019-2022; gosod fframwaith ymgynghori a llywodraethu newydd i mewn i weithdrefnau Llenyddiaeth Cymru; a datblygu system rheoli risg mwy deinamig a chyfunedig.

## Rhaglen

Isod mae ddetholiad o ddatblygiadau o fewn rhaglen Llenyddiaeth Cymru ar gyfer 2018-19:

## Dementia a'r Celfyddydau

Fel rhan o'i weithgareddau Llenyddiaeth a Llesiant cynyddol, bydd Llenyddiaeth Cymru yn trefnu diwrnod Dementia a'r Celfyddydau a gynhelir yng ngwanwyn 2018. Bydd Dementia a'r Celfyddydau yn ddiwrnod o drafod dwyieithog gyda chyflwyniadau gan arbenigwyr ym maes celfyddydau er iechyd a lles. Dyma gyfle i wrando a dysgu yng nghwmni siaradwyr gwadd sy'n gweithio mewn disgyblaethau celfyddydol o bob math ac sy'n arbenigo mewn gweithio â phobl sy'n byw â dementia.

## Ffrindiau Darllen

Caiff cynllun Ffrindiau Darllen ei lansio yn swyddogol ym mis Hydref 2018 gan y partneriaid cenedlaethol The Reading Agency. Yn ystod y cyfnod prawf, bu partneriaid a rheolwyr rhanbarthol yn gwerthuso'r prosiect yn y lleoliadau a ddewiswyd, a disgwylir dadansoddiad o'r gwerthusiad ym mis Medi 2018.

Bydd trafodaethau gydag ail bartner yng Nghymru gyda'r bwriad o weithredu'r cynllun mewn lleoliad newydd ar y cyd â Chonwy yn 2018-19.

### Eisteddfod Caerdydd

Caiff yr Eisteddfod Genedlaethol ei chynnal dafliad carreg o swyddfa Llenyddiaeth Cymru yn Mae Caerdydd. Yn ystod 2017-18 roedd Llenyddiaeth Cymru yn ran o drafodaethau gyda chydweithwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol er mwyn cynllunio ei weithgareddau yn ystod yr ŵyl. Yn ogystal, bu cynrychiolydd o Llenyddiaeth Cymru yn aelod o Bwyllgor Llên Lleol yr Eisteddfod er mwyn cynorthwyo wrth gynllunio'r arlwy lenyddol.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio ag amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Y Groes Goch Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Llywodraeth Cymru, ac Octavos er mwyn sicrhau rhaglen o weithgareddau amrywiol a chynhwysol yn y Brifwyl.

### Gŵyl y Gelli

Bydd Llenyddiaeth Cymru yn cydweithio â Gŵyl y Gelli unwaith eto ar gynllun Awduron wrth eu Gwaith – rhaglen ddatblygu broffesiynol i feithrin talent llenyddol Cymru yn y Gymraeg a'r Saesneg, sydd wedi ei drefnu gan Ŵyl y Gelli a'i gefnogi gan Gyngor y Celfyddydau.

Ar gyfer 2018, bydd datblygiad pellach i berthynas Llenyddiaeth Cymru â'r rhaglen trwy drefnu diwrnod o weithgareddau lle bydd y cyfranogwyr yn elwa o sgyrsiau a sesiynau holi gydag amrywiaeth o weithwyr yn y diwydiannau llenyddol.

Yn ogystal fe gaiff nifer o ddigwyddiadau eu trefnu fel rhan o arlwy'r ŵyl, a fydd yn cynnwys derbyniad i awduron, partneriaid a rhanddeiliaid Llenyddiaeth Cymru.

### Awdur Ieuenctid Cymru

Gyda chyfnod Sophie McKeand fel Awdur Ieuenctid Cymru yn dod i ben yn ystod 2017-18, fe benodir awdur newydd i'r rôl yn y flwyddyn fusnes nesaf. Bydd Llenyddiaeth Cymru yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid ac unigolion i benodi'r Awdur Ieuenctid Cymru gyda'r cyhoeddiad yn cyd-fynd â rhyddhau Cynllun Strategol 2019 - 20122.

### NHS 70

Mae Casia Wiliam, Bardd Plant Cymru, wedi ei chomisiynu gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda i ysgrifennu cerdd i ddathlu pen-blwydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn 70. Fe gaiff y gerdd ei dosbarthu i, a'i harddangos yn, wardiau plant mewn ysbytai ledled Cymru.

### Bardd Cenedlaethol

Bydd Bardd Cenedlaethol Cymru, Ifor ap Glyn yn cyhoeddi casgliad o gerddi dwyieithog yn 2018, nifer ohonynt wedi eu cyfansoddi yn ystod ei gyfnod yn y rôl. Caiff y gyfrol ei lansio yng Ngŵyl y Gelli.

Mae cerddi comisiwn ar gyfer 2018-19 yn cynnwys cerdd i nodi Blwyddyn y Môr Croeso Cymru, a gaiff ei rhyddhau fel ffilm ar wefannau a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol Croeso Cymru a Llenyddiaeth Cymru.

## Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2018

Yn dilyn Seremoni Wobrwyo Llyfr y Flwyddyn 2017 ym mis Tachwedd 2017, aeth Llenyddiaeth Cymru ati i ymgynghori â phartneriaid a noddwyr i gynllunio amserlen a threfniadau Gwobr 2018. Cytunwyd y dylid dychwelyd i'r amserlen wreiddiol, lle caiff y Rhestr Fer ei chyhoeddi ym mis Mai, a'r Seremoni Wobrwyo ei chynnal ym mis Mehefin. Bydd y Seremoni Wobrwyo yn dychwelyd i'r Tramshed, Caerdydd gyda sgyrsiau â lleoliadau a noddwyr posib ar gyfer y flwyddyn ganlynol wedi eu trefnu ar gyfer haf 2018.

## Grŵp Awduron Newydd Theatr Genedlaethol Cymru

Yn 2018 bydd Llenyddiaeth Cymru yn gweithio â Theatr Genedlaethol Cymru ar Grŵp Awduron Newydd, menter a gyflwynir ar y cyd â'r phartneriaid pellach S4C, Pontio, Theatr Clwyd, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Theatrau Sir Gâr, Canolfan y Mileniwm a Theatr y Sherman.

Mae'r Grŵp Awduron Newydd yn gyfle unigryw i hyd at 8 awdur theatr newydd ddatblygu eu crefft trwy gyfres o ddigwyddiadau, gweithdai a chyfleoedd mentora dros gyfnod o 10 mis. Nod y cynllun yw meithrin talent unigolion sy'n ysgrifennu ar gyfer y theatr yn yr iaith Gymraeg, a galluogi lleisiau newydd amrywiol i wneud eu marc. Fe gyhoeddir yr alwad am awduron yn haf 2018.

## Adolygiad Llyfrau i Blant a Phobl Ifanc

Yn 2017 comisiynodd Cyngor Llyfrau Cymru y Dr Siwan Rosser i gyflawni Adolygiad o Lyfrau i Blant a Phobl Ifanc a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf. Mae trafodaethau ar droed ynglŷn â sut y gall Llenyddiaeth Cymru ymateb i rai o'r argymhellion hyn. Yn Chwefror 2019 bydd Llenyddiaeth Cymru a Cyngor Llyfrau Cymru yn cydweithio i drefnu cwrs ysgrifennu creadigol Cymraeg ar gyfer awduron a dylunwyr llyfrau plant. Bydd y cwrs yn croesawu 12 o gyfranogwyr a caiff ei ariannu'n llawn gan y ddau sefydliad.

## Addysg

Bydd ymgynghoriad ag Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn parhau yn ystod 2018-19, ochr yn ochr â phrosiect mewn partneriaeth â CREW, Prifysgol Abertawe a fydd yn comisiynu adnoddau addysg sydd â'r nod o gynyddu diddordeb mewn awduron o Gymru ymysg addysgwyr a disgyblion TGAU a Lefel A/AS.

# Strwythur, Llywodraethu a Rheoli

Mae Llenyddiaeth Cymru yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant.

## Dogfen reoli

Mae'r sefydliad yn gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant, wedi'i corfforaethu ar 19 Medi 2011 a'i cofrestru fel elusen ar 23 Mawrth 2012. Sefydlwyd y cwmni o dan Femorandwm Cymdeithasu a bennodd amcanion a phwerau'r cwmni elusennol ac a reolir o dan ei Erthyglau Cymdeithasu.

## Recriwtio a phenodi ymddiriedolwyr newydd

Caiff Ymddiriedolwyr newydd eu penodi fel Cyfarwyddwyr y sefydliad yn dilyn proses recriwtio agored a thryloyw, fel y'i diffinnir gan yr Erthyglau Cymdeithasu. Caiff Ymddiriedolwyr eu penodi i gynrychioli portffolios penodol neu gryfhau sgiliau ac arbenigedd y Bwrdd Cyfarwyddwyr. Caiff pob Ymddiriedolwr newydd becyn sefydlu a gwybodaeth ynghylch rolau a chyfrifoldebau Ymddiriedolwr.

Mae'r Erthyglau Cymdeithasu yn nodi y bydd o leiaf draean y Cyfarwyddwyr yn ymddiswyddo o Fwrdd Llenyddiaeth Cymru bob tair blynedd, ac fe roir prosesau recriwtio ar waith i benodi Cyfarwyddwyr newydd.

## Strwythur sefydliadol

Caiff y sefydliad ei arwain gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr, sydd hefyd yn gweithredu fel Ymddiriedolwyr y sefydliad. Mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr, sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol y sefydliad a gwaith cynllunio ariannol cyffredinol. Mae'r Bwrdd yn dirprwyo'r gwaith o redeg y sefydliad o ddydd i ddydd i'r tîm gweithredol, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, a gaiff ei gefnogi gan Uwch Dîm Rheoli sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod cynnydd tuag at gyflawni nodau strategol a thargedau eraill.

## Personél Rheoli Allweddol

Personél Rheoli Allweddol y sefydliad yw'r Prif Weithredwr, Lleucu Siencyn; y Dirprwy Brif Weithredwr, Elinor Robson; y Pennaeth Rhaglenni, Elena Schmitz; a'r Swyddog Cyllid, Emma Richards. Caiff cydnabyddiaeth y Personél Rheoli Allweddol ei phennu a'i chymeradwyo'n flynyddol gan Gadeirydd y Bwrdd yn unol â strwythur bandiau cyflog y sefydliad.

# Manylion Cyfeirio a Gweinyddu

**Enw'r elusen** Llenyddiaeth Cymru / Literature Wales

**Rhif cofrestru'r elusen** 1146560
**Rhif cofrestru'r cwmni** 07779153

**Swyddfa gofrestredig**

Canolfan Glyn Jones
Canolfan Mileniwm Cymru
CAERDYDD
CF10 5AL

**Ymddiriedolwyr**

Dr Kate Teresa North (Cadeirydd – penodwyd 16/5/2018)

Professor Damian Walford Davies (Cadeirydd - ymddiswyddodd 16/5/2018)

Jacob Dafydd Ellis (Dirprwy Gadeirydd - penodwyd 16/5/2018)

| | |
|---|---|
| Justin Thomas Albert | (ymddiswyddodd 16/5/2018) |
| Craig Austin | (penodwyd 16/5/2018) |
| William Ayot | |
| Dr Tammy Boyce | (ymddiswyddodd 18/01/2018) |
| Eric Charles | |
| Catrin Gerallt Daniel | (ymddiswyddodd 18/10/2017) |
| James Richard Dunn | (ymddiswyddodd 14/07/2017) |
| Hannah Florence Ellis | (ymddiswyddodd 14/07/2017) |
| Angharad Wynne Evans | |
| Annie Finlayson | (penodwyd 16/5/2018) |
| Elizabeth Margaret George | |
| Llio Elain Maddocks | (ymddiswyddodd 17/01/2018) |
| Radhika Mohanram | (penodwyd 16/5/2018) |
| John O'Shea | (penodwyd 16/5/2018) |
| Delyth Roberts | (penodwyd 16/5/2018) |
| Owain Taylor-Shaw | (penodwyd 16/5/2018) |

| | |
|---|---|
| **Prif swyddog gweithredol** | Lleucu Siencyn |
| **Ysgrifennydd y cwmni** | Ifan Brychan |
| **Prif fancwyr** | CAF Bank<br>25 Kings Hill Avenue,<br>Kings Hill,<br>Kent<br>ME19 4JQ |
| **Archwilwyr** | Broomfield & Alexander Limited<br>Chartered Accountants & Statutory Auditors<br>Waters Lane Chambers<br>1-3 Waters Lane<br>Casnewydd<br>NP20 1LA |

Cymeradwywyd adroddiad yr ymddiriedolwyr gan Fwrdd yr Ymddiredolwyr.

Ifan Brychan

**Ysgrifennydd y Cwmni**

Dyddiad ……………………………………

## Datganiad o Gyfrifoldeb Ymddiriedolwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr Llenyddiaeth Cymru / Literature Wales at ddibenion cyfraith cwmnïau, yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r cyfrifon yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol, yr adnoddau sy'n dod i mewn a'r broses o ddefnyddio adnoddau'r cwmni elusennol, gan gynnwys incwm a gwariant, ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- dilyn y dulliau gweithredu a'r egwyddorion a geir yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn synhwyrol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol y cwmni elusennol yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod achosion o dwyll ac anghysondebau eraill.

# Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol

**Barn**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Llenyddiaeth Cymru / Literature Wales ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 sy'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiadau Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a roddwyd ar waith wrth eu paratoi yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig) gan gynnwys FRS 102.

Yn ein barn ni, mae'r cyfrifon:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2018 ynghyd â'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r ffordd y defnyddiwyd adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

**Sali ar gyfer y farn hon**

Yr ydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (DU) (ISA's (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Mae'n cyfrifoldebau dan y safonau hynny yn cael ei disgrifio ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r Archwilwyr ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol. Yr ydym yn annibynnol o'r elusen yn unol â'r gofynion moesegol sydd yn berthnasol i'n harchwiliad o'r cyfrifon yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol yr FRC, ac yr ydym wedi cwblhau ein cyfrifoldebau moesegol yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth yr ydym wedi eu harchwilio fel rhan o'r archwiliad yn ddigonol ac yn berthnasol er mwyn i ni allu darparu'n barn.

**Casgliadau ynglŷn â Busnes Gweithredol**

Ni does gennym unrhyw beth i'w adrodd o ran y materion canlynol, y mae'r ISA's (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd arnynt, ble:

- Nad yw defnydd yr ymddiriedolwyr o'r busnes gweithredol n ystod paratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nad yw'r ymddiriedolwyr wedi datgan unrhyw ddeunydd gamddatganiad yn y datganiadau ariannol a allai godi cwestiynau arwyddocaol ynglŷn â gallu'r elusen i barhau i fabwysiadau dulliau cyfrifeg y busnes gweithredol ar gyfer cyfnod o ddeuddeg mis o'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi ei hawdurdodi ar

**Gwybodaeth bellach**

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am y wybodaeth bellach. Mae'r wybodaeth bellach yn cynnwys unrhyw wybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol nad sydd yn ymwneud â'r a barn yr archwilwyr arnynt. Nid yw'n barn ni ar y datganiadau ariannol yn ymwneud â'r wybodaeth bellach ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad ar y cynnwys hwnnw.

Mewn cyswllt â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth bellach ac, o wneud hynny, i gysidro os yw'r wybodaeth bellach yn anghyson, o ran deunydd, gyda'r datganiadau ariannol; neu mae'n gwybodaeth ni fel rhan o'r archwiliad felly yn cael ei gyfrif yn gamarweiniol o ran deunydd. Os fyddwn ni'n adnabod anghysondeb neu ddeunydd gamddatganiadol, rhaid i ni benderfynu os oes deunydd gamddatganiadol yn y datganiadau ariannol neu os oes deunydd camddatganiadol yn y wybodaeth bellach. Os, ar sail y gwaith a wnaed, y byddwn ni'n do di gasgliad bod deunydd camddatganiadol yn y wybodaeth bellach, mae'n ofynnol i ni adrodd ar hynny.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ynglyn â'r mater hwn.

**Materion y mae angen i ni roi adroddiad arnynt drwy eithriad**

Yn sgil y wybodaeth a'r ddealltwriaeth am yr elusen a'i amgylchedd a gasglwyd yn ystod cwrs yr archwiliad, nid ydym wedi adnabod unrhyw ddeunydd gamddatganiadol yn adroddiad y cyfarwyddwyr sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn i'r ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y mae Deddf Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn ein barn ni:

- nid yw'r wybodaeth a roddwyd yn y datganiadau ariannol yn gyson â'r deunydd yn adroddiad yr ymddiriedolwyr; neu
- nid chadwyd cofnodion cyfrifyddu digon da; neu
- nid yw'r cyfrifon yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- ni chafwyd yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau oedd eu hangen ar gyfer ein harchwiliad

**Priod gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau, yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni'u hunain bod y datganiadau hynny yn rhoi darlun cywir a theg, ac ar gyfer pa bynnag reolaeth fewnol ag y mae'r ymddiriedolwyr yn credu sy'n addas i alluogi paratoad y datganiadau ariannol sydd yn rhydd o unrhyw ddeunydd camddatganiadol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgan, os yn berthnasol, unrhyw faterion yn ymwneud â'r busnes gweithredol ac yn defnyddio'r busnes gweithredol fel sail i'r cyfrifon oni bai bod yr ymddiriedolwyr yn bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu i ddiddymu ei weithrediadau, neu pe na fyddai unrhyw opsiwn amgen ond gwneud hynny.

**Cyfrifoldebau'r Archwilwyr dros archwilio'r datganiadau ariannol**

Ein nod yw casglu sicrwydd rhesymol os yw'r datganiadau ariannol, ar y cyfan, yn rhydd o unrhyw ddeunydd camddatganiadol, boed hynny oherwydd twyll neu wallau, ac i gynhyrchu adroddiad yr archwilwyr yn cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad wedi ei gynnal yn unol â safonau'r ISAs (DU) yn llwyddo i ganfod deunyddiau camddatganiadol bob tro. Gall gamddatganiadau godi yn dilyn twyll neu wallau. Cânt eu cyfrif fel deunyddiau os, yn unigol neu wedi'u cronni, y gellir credu y gallant, o fewn rheswm, gael eu defnyddio i ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd y defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Gellir canfod disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ni ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan yr FRC: <http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities>. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad yr archwilwyr.

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno ar gyfer ymddiriedolwyr yr elusen, fel corf, yn unol â rhan 4 o Ddeddf Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008. Mae'n gwaith archwilio wedi cael ei wneud fel ein bod ni'n gallu datgan unrhyw wybodaeth y mae'n ofynnol i ni ei ddatgan wrth ymddiriedolwyr yr elusen ac nid ar gyfer unrhyw ddiben arall. Hyd eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn honni unrhyw gyfrifoldeb

**Sarah Case FCA DChA (Uwch Archwilydd Statudol)**
**ar gyfer ac ar ran MHA Broomfield Alexander**

.........................

**Cyfrifwyr Siartredig**
**Archwilwyr Statudol**

Waters Lane Chambers
Waters Lane
CASNEWYDD
NP20 1LA

# Datganiad o Weithgareddau Ariannol

| | Nodyn | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2018 £ | Cyfanswm 2017 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm a gwaddolion o:** | | | | | |
| Rhoddion a chymynroddion | **3** | 1,151 | - | 1,151 | 2,234 |
| Gweithgareddau elusennol | **4** | 1,159,266 | 38,296 | 1,197,562 | 1,176,991 |
| Gweithgareddau masnachu eraill | **5** | 34,421 | - | 34,421 | 13,107 |
| Buddsoddiadau | **6** | 542 | - | 542 | 929 |
| Incwm arall | **7** | 5,616 | - | 5,616 | 11,021 |
| **Cyfanswm yr Incwm** | | 1,200,996 | 38,296 | 1,239,292 | 1,204,282 |
| **Gwariant ar:** | | | | | |
| Codi arian | **8** | 30,788 | - | 30,788 | 30,331 |
| Gweithgareddau elusennol | **9** | 1,135,951 | 18,874 | 1,154,825 | 1,178,858 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a ddefnyddiwyd** | | 1,166,739 | 18,874 | 1,185,613 | 1,209,189 |
| **Gwariant)/incwm net ar gyfer y flwyddyn/ Symudiad net mewn cronfeydd** | | 34,257 | 19,422 | 53,679 | (4,907) |
| Balansau cronfeydd ar 1 Ebrill 2017 | | 221,963 | 2,279,297 | 2,501,260 | 2,506,167 |
| **Balansau cronfeydd ar 31 Mawrth 2018** | | 256,220 | 2,298,719 | 2,554,939 | 2,501,260 |

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys unrhyw enillion a cholledion cydnabyddedig yn ystod y flwyddyn.

Mae unrhyw incwm a gwariant yn deillio o weithgareddau sy'n parhau.

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol hefyd yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 o ran cyfrif incwm a gwariant.

# Mantolen

| | Nodyn | 2018 £ | 2018 £ | 2017 £ | 2017 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau diriaethol | **14** | | 2,246,738 | | 2,254,662 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Stociau | **16** | 306 | | 753 | |
| Dyledwyr | **17** | 163,869 | | 186,265 | |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | | 441,878 | | 370,382 | |
| | | 606,053 | | 557,400 | |
| **Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | **18** | (297,852) | | (310,802) | |
| Asedau cyfredol net | | | 308,201 | | 246,598 |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | 2,554,939 | | 2,501,260 |
| **Cronfeydd incwm** | | | | | |
| Cronfeydd incwm cyfyngedig | **21** | | 2,298,719 | | 2,279,297 |
| Cronfeydd anghyfyngedig | | | | | |
| Cronfeydd dynodedig | **23** | 69,047 | | 62,016 | |
| Cronfeydd anghyfyngedig cyffredinol | | 187,173 | | 159,947 | |
| | | | 256,220 | | 221,963 |
| | | | 2,554,939 | | 2,501,260 |

Mae'r cwmni wedi'i eithrio o dan adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006 rhag gorfod cael ei archwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, er bod archwiliad wedi'i gynnal o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011. Nid oes unrhyw aelod o'r cwmni wedi cyflwyno hysbysiad, yn unol ag adran 476, sy'n mynnu bod y cyfrifon hyn yn cael eu harchwilio o dan ofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr elusen yn cadw cofnodion cyfrifyddu sy'n cydymffurfio ag adran 386 o'r Ddeddf, ac am baratoi cyfrifon sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, yr adnoddau sy'n dod i mewn a'r ffordd y caiff adnoddau eu defnyddio, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, ar gyfer y flwyddyn ariannol yn unol â gofynion adrannau 394 a 395 ac sydd fel arall yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 o ran cyfrifon, i'r graddau ag sy'n berthnasol i'r cwmni.

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n destun y drefn cwmnïau bach.

Cymeradwywyd y cyfrifon gan yr Ymddiriedolwyr ar .........................

K North

**Ymddiriedolwr**

J Dafydd Ellis

**Ymddiriedolwr**

# Datganiad Llif Arian Parod

| | Nodyn | 2018 £ | 2018 £ | 2017 £ | 2017 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llif arian parod o weithgareddau gweithredol** | | | | | |
| Arian parod net a gynhyrchwyd o/(a ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredol | **29** | | 73,687 | | (9,611) |
| **Gweithgareddau buddsoddi** | | | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol a brynwyd | | (2,733) | | - | |
| Llog a dderbyniwyd | | 542 | | 929 | |
| **Arian parod net a gynhyrchwyd o/(a ddefnyddiwyd mewn) weithgareddau buddsoddi** | | | (2,191) | | 929 |
| **Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau ariannu** | | | - | | - |
| **Cynnydd /(gostyngiad) net sy’n cyfateb i arian parod** | | | 71,496 | | (8,682) |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | | | 370,382 | | 379,064 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | | | 441,878 | | 370,382 |
| Mae taliadau byr dymor wedi eu cynnwys yn y buddsoddiadau asedau cyfredol | | | - | | - |
| Mae gorddrafft y banc wedi eu cynnwys yn y credydwyr fydd yn talu o fewn blwyddyn | | | - | | - |

# Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

**1 Polisïau Cyfrifo**

**Gwybodaeth am yr elusen**

Mae Llenyddiaeth Cymru/Literature Wales yn gwmni cyfyngedig drwy warant wedi'i gorfforaethu yn Lloegr a Chymru. Y swyddfa cofrestredig yw Canolfan Glyn Jones, Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd, Cymru CF10 5AL.

**1.1 Confensiwn cyfrifo**

Paratowyd y cyfrifon yn unol â [dogfen lywodraethu'r] elusen, y Ddeddf Cwmnïau 2006 a "Cyfrifyddu a Chyflwyno Adroddiadau gan Elusennau: Datganiad a'r Arfer a Argymhellir sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102)" (a ddiwygiwyd ar gyfer cyfnodau cyfrifo yn cychwyn 1 Ionawr 2016). Mae'r cwmni yn ateb y diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS 102.

Caiff y cyfrifon eu paratoi mewn sterling, sef arian gweithredol yr elusen. Caiff y symiau ariannol yn y datganiadau ariannol hyn eu talgrynnu i'r £ agosaf.

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol a'u haddasu i gynnwys y gwaith o ailbrisio eiddo rhydd-ddaliad ac i gynnwys eiddo buddsoddi ac offerynnau ariannol penodol ar werth teg. Nodir y prif bolisïau cyfrifo a fabwysiadwyd isod.

**1.2 Busnes gweithredol**

Nododd yr elusen weddill net o £53,679 (2017 – diffyg o £4,907). Mae gan yr elusen gronfa ariannol wrth gefn digonol ac mae'n monitro canlyniadau yn rheolaidd. Ar sail hyn, mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn fod yr elusen yn fusnes gweithredol ac nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol ynghylch gallu'r elusen i barhau i fod yn fusnes gweithredol.

**1.3 Cronfeydd elusennol**

Gellir defnyddio cronfeydd anghyfyngedig yn unol â'r amcanion elusennol yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr.

Cronfeydd dynodedig
Cronfeydd dynodedig yw cronfeydd anghyfyngedig yr elusen sydd wedi'u neilltuo er mwyn ariannu gweithgareddau penodol yr elusen yn y dyfodol.

Cronfeydd cyfyngedig
Dim ond at ddibenion penodol o fewn amcanion yr elusen y gellir defnyddio cronfeydd cyfyngedig. Ceir cyfyngiadau pan gânt eu nodi gan y rhoddwr neu pan gaiff arian ei godi at ddibenion cyfyngedig penodol.

Ceir esboniad pellach o natur a diben pob cronfa yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol

**1.4 Adnoddau sy'n dod i mewn**

Caiff yr holl adnoddau sy'n dod i mewn eu cynnwys yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan fydd gan yr elusen yr hawl gyfreithiol i'r incwm a gellir mesur y swm yn rhesymol gywir.

Grantiau
Caiff grantiau sy'n dderbyniadwy eu trin mewn ffyrdd gwahanol yn dibynnu ar eu dibenion a thelerau'r grant.

Caiff grantiau sy'n dderbyniadwy at ddibenion penodol eu trin fel cronfeydd cyfyngedig er mwyn i unrhyw gronfeydd nas defnyddiwyd gael eu nodi ar wahân.

Caiff grantiau sy'n dderbyniadwy er mwyn hwyluso'r broses gyffredinol o redeg y prosiect h.y. lle y gall y cyfarwyddwyr/ymddiriedolwyr ddewis sut y caiff y cronfeydd eu gwario, eu trin fel cronfeydd anghyfyngedig.

## 1 Polisïau Cyfrifo (Parhad)

Caiff cyfraniadau arian parod eu cydnabod ar ôl eu derbyn. Caiff cyfraniadau eraill eu cydnabod pan fydd yr elusen wedi cael gwybod amdanynt, oni bai bod angen gohirio'r swm oherwydd amodau perfformiad. Caiff treth incwm adenilladwy o ran cyfraniadau a dderbyniwyd drwy Rodd Cymorth neu weithredoedd cyfamodi ei chydnabod ar yr adeg y caiff y cyfraniad ei wneud.

Mae trosiant yn cael ei fesur yn ôl gwerth teg y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd neu sy'n dderbyniadwy ac yn cynrychioli symiau sy'n dderbyniadwy am nwyddau a gwasanaethau a roddwyd fel rhan arferol o fusnes, yn net o ddisgowntiau, TAW a threthi eraill sy'n gysylltiedig â gwerthiannau.

### 1.5 Adnoddau a ddefnyddiwyd

Rhoddir cyfrif am wariant ar sail croniadau ac mae wedi'i ddosbarthu o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n ymwneud â'r categori.
.

- Mae gwariant elusennol yn cynnwys y costau hynny yr aeth yr elusen iddynt wrth gyflawni ei gweithgareddau a'i gwasanaethau ar gyfer ei buddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y gellir eu dyrannu'n uniongyrchol i weithgareddau o'r fath a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sydd eu hangen i'w cynnal.

- Mae costau llywodraethu yn cynnwys y costau hynny sy'n gysylltiedig â bodloni gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen ac maent yn cynnwys ffioedd yr archwiliad a'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith strategol o reoli'r elusen.

- Mae'r holl gostau wedi'u dyrannu rhwng categorïau gwariant y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail a gynllunnir i adlewyrchu'r defnydd o'r adnodd. Mae costau sy'n ymwneud â gweithgarwch penodol wedi'u dyrannu'n uniongyrchol.

Gwrthbwyso
Ni wrthbwyswyd unrhyw asedau, rhwymedigaethau, incwm na threuliau, onid yw FRS 102 SORP neu FRS 102 yn mynnu neu'n caniatáu hynny

### 1.6 Asedau sefydlog diriaethol

I ddechrau, caiff asedau sefydlog diriaethol eu mesur yn ôl cost a'u mesur wedi hynny yn ôl cost neu brisiad, yn net o ddibrisiant ac unrhyw golledion oherwydd lleihad mewn gwerth.

Caiff dibrisiant ei gydnabod er mwyn dileu cost neu brisiad asedau llai eu gwerthoedd gweddilliol dros eu bywydau defnyddiol ar y seiliau canlynol:

| | |
|---|---|
| Tir ac adeiladau rhydd-ddaliad | |
| Offer a pheiriannau | lleihau balans 10% |
| Gosodiadau a ffitiadau | lleihau balans 10% |

Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn, oherwydd statws rhestredig yr eiddo, a'r polisi'n ymwneud â gwaith cynnal a chadw parhaus, y bydd gwerth gwireddadwy net yr eiddo bob amser yn uwch na'i gost. Felly, ni ddibrisir yr eiddo.

Caiff asedau sefydlog eu datgan yn ôl cost llai dibrisiant cronedig. Ni chyfalefir ychwanegiadau sy'n costio llai na £500.

## 1 Polisïau Cyfrifo (Parhad)

### 1.7 Stociau

Caiff stociau eu datgan yn ôl cost a phris gwerthu amcangyfrifedig, pa un bynnag sydd isaf, llai costau cwblhau a gwerthu. Mae'r gost yn cynnwys deunyddiau uniongyrchol a, lle y bo'n briodol, gostau llafur uniongyrchol a'r costau cyffredinol hynny yr aed iddynt er mwyn dod â'r stociau i'w lleoliad a'u cyflwr presennol. Caiff eitemau a gedwir i'w dosbarthu am ddim cydnabyddiaeth neu gydnabyddiaeth nominal eu mesur yn ôl cost ailadeiladu a chost, pa un bynnag sydd isaf.

Gwerth gwireddadwy net yw'r pris gwerthu amcangyfrifedig llai'r holl gostau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â chwblhau a'r costau yr eir iddynt wrth farchnata, gwerthu a dosbarthu.

### 1.8 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, arian ar alw a gedwir yn y banc, buddsoddiadau hylifol byrdymor eraill â chyfnodau aeddfedu gwreiddiol o dri mis neu lai a gorddrafftiau banc. Dangosir gorddrafftiau banc o fewn benthyciadau o dan rwymedigaethau presennol.

### 1.9 Offerynnau ariannol

Dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol o fath sy'n gymwys fel offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Cydnabyddir offerynnau ariannol sylfaenol i ddechrau yn ôl eu gwerth trafodyn a chânt eu mesur ar ôl hynny yn ôl eu gwerth setlo.

***Asedau ariannol sylfaenol***

Dyledwyr

Cydnabyddir dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill ar swm y setliad sy'n ddyledus ar ôl unrhyw ostyngiad masnachol a gynigiwyd. Caiff rhagdaliadau eu prisio ar y swm a ragdalwyd yn net o unrhyw ostyngiadau masnachol sy'n ddyledus.

***Rhwymedigaethau ariannol sylfaenol***

Credydwyr a darpariaethau

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau lle mae gan yr elusen rwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol y mae'n debyg y bydd yn arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti a lle y gellir mesur y swm sy'n daladwy i setlo'r rhwymedigaeth neu ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer cydnabyddir credydwyr a darpariaethau ar swm eu setliad ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ostyngiadau masnachol sy'n ddyledus.

Polisi rhwymedigaethau

Cydnabyddir rhwymedigaethau yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt ddod yn daladwy.

### 1.10 Prydlesi

Codir rhenti a dalwyd o dan brydlesi gweithredol i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail llinell syth dros fywyd y brydles.

### 1.11 Trethiant

Fel elusen, mae Llenyddiaeth Cymru / Literature Wales wedi'i heithrio rhag trethiant mewn perthynas ag incwm ac enillion cyfalaf a gafwyd o fewn adrannau 478-489 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 ac adran 256 o Ddeddf Trethu Enillion Taladwy 1992, i'r graddau y mae'r cyfryw incwm neu enillion yn cael eu cymhwyso at ddibenion elusennol yn unig.

### 1.12 TAW anadenilladwy

Codir TAW anadenilladwy yn erbyn y categori o adnoddau a ddefnyddiwyd yr aethpwyd iddi mewn perthynas ag ef.

### 1.13 Pensiynau

Mae'r elusen yn gweithredu cynllun cyfraniadau diffiniedig er budd ei chyflogeion. Delir asedau'r cynllun ar wahân i rai'r elusen. Codir cyfraniadau sy'n daladwy ar y cyfrif elw a cholled yn y flwyddyn y maent yn daladwy ac fe'u codir yn erbyn cronfeydd anghyfyngedig.

## 2 Dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu critigol

Wrth roi polisïau cyfrifyddu'r elusen ar waith, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr ddyfarnu, amcangyfrif a thybio swm cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn hawdd eu gweld o ffynonellau eraill. Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall y canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Caiff yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sylfaenol eu hadolygu'n barhaus. Caiff diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn ystod y cyfnod y bydd yr amcangyfrif yn cael ei ddiwygio pan fydd y diwygiad yn effeithio ar y cyfnod hwnnw'n unig, neu yn ystod y cyfnod a chyfnodau yn y dyfodol pan fydd y diwygiad yn effeithio ar y cyfnod hwnnw a chyfnodau yn y dyfodol.

## 3 Rhoddion a Chymynroddion

| | **2018** | **2017** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Rhoddion a Chymynroddion | 1,151 | 2,234 |
| | | |
| **Rhoddion a Chymynroddion** | | |
| Arall | 1,151 | 2,234 |
| | 1,151 | 2,234 |

## 4 Gweithgareddau elusennol

| | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Grantiau | 1,016,857 | 996,921 |
| Incwm o weithgareddau | 180,705 | 180,070 |
| | 1,197,562 | 1,176,991 |
| Dadansoddiad yn ôl cronfa | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | 1,159,266 | |
| Cronfeydd cyfyngedig | 38,296 | |
| | 1,197,562 | |
| **Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017** | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | | 1,073,556 |
| Cronfeydd cyfyngedig | | 103,435 |
| | | 1,176,991 |
| **Grantiau sy'n gysylltiedig â pherfformiad** | | |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 851,701 | 846,663 |
| Llywodraeth Cymru | 92,190 | 118,927 |
| Llenyddiaeth a Llesiant | 3,290 | 6,580 |
| Bardd Plant Cymru | 11,620 | 5,000 |
| Ffrindiau Darllen | 35,336 | - |
| Arall | 22,720 | 19,751 |
| | 1,016,857 | 996,921 |

## 5 Gweithgareddau masnachu eraill

| | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Gwerthiant llyfrau | 8,172 | 2,722 |
| Hurio Tŷ Newydd | 26,249 | 10,385 |
| Gweithgareddau masnachu eraill | 34,421 | 13,107 |

## 6 Buddsoddiadau

| | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Llog derbyniadwy | 542 | 929 |

## 7 Incwm arall

| | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Incwm arall | 5,616 | 11,021 |

## 8 Codi arian

| | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Gweithgareddau masnachu | | |
| Ty Newydd | 15,566 | 15,202 |
| Costau gweinyddol | 15,222 | 15,129 |
| Gweithgareddau masnachu | 30,788 | 30,331 |
| | 30,788 | 30,331 |
| **Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017** | | |
| Gweithgareddau masnachu | | 30,331 |

## 9 Gweithgareddau elusennol

| | 2018 £ | 2017 £ |
|---|---|---|
| Cymryd Rhan | 386,888 | 370,054 |
| Cefnogi Awduron | 403,877 | 419,661 |
| Cynrychioli a hyrwyddo rhyngwladol | 72,583 | 82,003 |
| Plant a Phobl | 146,616 | 142,496 |
| Digidol | 17,509 | 17,125 |
| | 1,027,473 | 1,031,339 |
| Arian grant ar gyfer gweithgareddau (gweler nodyn 10) | 101,600 | 134,365 |
| Cyfran o gostau cynnal (gweler nodyn 11) | 10,657 | 3,913 |
| Cyfran o gostau llywodraethu (gweler nodyn 11) | 15,095 | 9,241 |
| | 1,154,825 | 1,178,858 |
| **Dadansoddiad yn ôl cronfa** | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | 1,135,951 | |
| Cronfeydd cyfyngedig | 18,874 | |
| | 1,154,825 | |
| **Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017** | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | | 1,065,429 |
| Cronfeydd cyfyngedig | | 113,429 |
| | | 1,178,858 |

## 10 Grantiau taladwy

| | 2018 £ | 2017 £ |
|---|---|---|
| Grantiau i sefydliadau | 12,145 | 27,950 |
| Grantiau i unigolion drwy sefydliadau | 15,327 | 33,020 |
| Grantiau i unigolion (Ysgoloriaethau) | 74,128 | 73,395 |
| | 101,600 | 134,365 |

-

## 11 Costau cynnal

| | Costau Cynnal | Costau Llywodraethu | 2018 | 2017 | Sail y dyraniad |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | |
| Dibrisiant | 10,657 | - | 10,657 | 3,913 | |
| Ffioedd archwilio | - | 8,200 | 8,200 | 7,230 | Llywodraethu |
| Costau uniongyrchol | - | 1,148 | 1,148 | 599 | Llywodraethu |
| Costau gweinyddol | - | 5,747 | 5,747 | 1,412 | Llywodraethu |
| | 10,657 | 15,095 | 25,752 | 13,154 | |
| Dadansoddwyd rhwng Gweithgareddau elusennol | 10,657 | 15,095 | 25,752 | 13,154 | |

Mae costau llywodraethu yn cynnwys talu £8,200 i'r archwilwyr am ffioedd archwilio.

## 12 Symudiad net mewn cronfeydd

| | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Nodir symudiad net mewn cronfeydd ar ôl codi ffioedd/(credydu) | | |
| Ffioedd sy'n daladwy i archwilydd y cwmni am archwilio datganiadau ariannol y cwmni | 8,200 | 7,230 |
| Dibrisiant asedau sefydlog diriaethol y mae'r cwmni yn berchen arnynt | 3,335 | 3,913 |
| Colled ar warediad asedau sefydlog y mae'r cwmni yn berchen arnynt | 7,322 | - |

## 13 Cyflogeion

**Nifer y cyflogeion**

Nifer y staff a gyflogwyd bob mis, ar gyfartaledd, yn ystod y flwyddyn oedd:

| | 2018 Nifer | 2017 Nifer |
|---|---|---|
| Nifer cyfartalog y cyflogeion | 22 | 22 |

Nifer y cyflogeion a enillodd rhwng £60,000 a £70,000 yn ystod y flwyddyn oedd:

| | 2018 Nifer | 2017 Nifer |
|---|---|---|
| £60,000 - £70,000 | 1 | 1 |

Personél Rheoli Allweddol

Cyfanswm buddiannau cyflogeion personél rheoli allweddol yr elusen oedd £148,404 (2017: £149,986).

## 14 Asedau sefydlog diriaethol

| | Tir ac adeiladau rhydd-ddaliad | Peiriannau a chyfarpar | Gosodiadau a ffitiadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 2,219,446 | 3,020 | 53,134 | 2,275,600 |
| Ychwanegiadau | - | - | 2,733 | 2,733 |
| Gwarediadau | - | - | (11,515) | (11,515) |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 2,219,446 | 3,020 | 44,352 | 2,266,818 |
| **Dibrisiant a lleihad mewn gwerth** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | - | 1,769 | 19,169 | 20,938 |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | - | 125 | 3,210 | 3,335 |
| Dilëwyd o ganlyniad i waredaid | - | - | (4,193) | (4,193) |
| Ar 31 Mawrth 2018 | - | 1,894 | 18,186 | 20,080 |
| **Swm cario asedau ariannol** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 2,219,446 | 1,126 | 26,166 | 2,246,738 |
| At 31 Mawrth 2017 | 2,219,446 | 1,251 | 33,965 | 2,254,662 |

## 15 Offerynnau ariannol

| | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **Swm cario asedau ariannol** | | |
| Offerynnau dyled a fesurwyd yn ôl cost wedi'i hamorteiddio | 598,608 | 539,287 |
| **Swm cario rhwymedigaethau ariannol** | | |
| Mesurwyd yn ôl cost wedi'i hamorteiddio | 146,377 | 192,756 |

## 16 Stociau

| | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Nwyddau gorffenedig a nwyddau i'w hailwerthu | 306 | 753 |

## 17 Dyledwyr

| | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| **Symiau sy’n ddyledus o fewn blwyddyn:** | £ | £ |
| Dyledwyr masnach | 156,666 | 168,807 |
| Dyledwyr eraill | 64 | 98 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 7,139 | 17,360 |
| | 163,869 | 186,265 |

**18 Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn**

| | Nodyn | 2018 £ | 2017 £ |
|---|---|---|---|
| Trethiant a nawdd cymdeithasol arall | | 11,263 | 9,690 |
| Incwm gohiriedig | **19** | 140,212 | 108,356 |
| Credydwyr masnach | | 91,480 | 96,392 |
| Credydwyr eraill | | 54,897 | 96,364 |
| | | 297,852 | 310,802 |

**19 Incwm gohiriedig**

| | 2018 £ | 2017 £ |
|---|---|---|
| Incwm gohiriedig arall | 140,212 | 108,356 |

Mae incwm gohiriedig wedi'i gynnwys yn y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

| | 2018 £ | 2017 £ |
|---|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen | 108,356 | 74,240 |
| Incwm a dderbyniwyd | 187,569 | 158,741 |
| Incwm a ryddhawyd | (155,713) | (124,625) |
| | 140,212 | 108,356 |

Wedi'i gynnwys o fewn incwm gohiriedig mae £113,100 sy'n ymwneud â chyrsiau a masnachu, ac mae £27,112 yn ymwneud â grantiau sy'n gysylltiedig â pherfformiad a dderbyniwyd ymlaen llaw.

**20 Cynlluniau budd-daliadau ymddeol**

Mae'r elusen yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar gyfer pob cyflogai cymwys. Delir asedau'r cynllun ar wahân i rai'r elusen, a hynny mewn cronfa a weinyddir yn annibynnol.

Y tâl i'r cyfrif incwm a gwariant o ran cynlluniau cyfraniadau diffiniedig oedd

## 21 Cronfeydd cyfyngedig

Mae cronfeydd incwm yr elusen yn cynnwys cronfeydd cyfyngedig sy'n cynnwys y cyfraniadau a'r grantiau nas defnyddiwyd canlynol a ddelir mewn ymddiriedolaeth at ddibenion penodol:

| | | Symudiad mewn | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Balans ar 1 Ebrill 2017** | **Adnoddau sy'n dod i mewn** | **Adnoddau a ddefnyddi-wyd** | **Balans ar 31 Mawrth 2018** |
| | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Llên Pawb | - | 29,517 | - | 29,517 |
| Y Neuadd | 1,004 | - | - | 1,004 |
| Llenyddiaeth a Llesiant | 17,548 | 1,090 | (4,095) | 14,543 |
| Bardd Ieuenctid Cymru | 1,350 | - | - | 1,350 |
| Ymddiriedolaeth Rhys Davies | 3,684 | - | - | 3,684 |
| Bardd Plant Cymru | 5,898 | - | (165) | 5,733 |
| Cronfa Datblygu Cyfalaf Wrth Gefn | 2,219,446 | - | - | 2,219,446 |
| Ysgoloriaeth Jan Mark | 5,870 | - | - | 5,870 |
| Ysgoloriaeth Judi Thwaite | 500 | - | - | 500 |
| Ffrindiau Darllen | 846 | 1,104 | - | 1,950 |
| Gŵyl Llên Plant Caerdydd | - | 1,047 | (1,047) | - |
| IOF | - | 347 | (102) | 245 |
| Roald Dahl 100 | 18,636 | - | (9,612) | 9,024 |
| Dydd Dylan | 4,515 | - | (3,853) | 662 |
| Cymru Ryfedd a Chyfareddol | - | 5,191 | - | 5,191 |
| | 2,279,297 | 38,296 | (18,874) | 2,298,719 |

**21 Cronfeydd cyfyngedig (Parhad)**

Llên Pawb - prosiect cymunedol sy’n cynnig cyfleoedd creadigol ac artistig trwy lenyddiaeth

Y Neuadd - cyfnodolyn llenyddol Cymraeg ar-lein sy'n cyhoeddi gwaith newydd ac arbrofol. Ei brif ffynhonnell incwm yw grant gan Gyngor Llyfrau Cymru.

Llenyddiaeth er Iechyd a Lles - derbyniodd yr elusen grant gan Esmee Fairbairn Foundation i hyrwyddo iechyd a lles trwy lenyddiaeth, ac i ehangu mynediad i Dŷ Newydd.

Awdur Ieuenctid Cymru - derbyniodd yr elusen arian gan y Cyngor Prydeinig i ariannu gweithgareddau rhyngwladol gyda'r awdur llawryfog.

Ymddiriedolaeth Rhys Davies - llwyddodd Llenyddiaeth Cymru i sicrhau grant gan yr ymddiriedolaeth i gwmpasu costau trefnu cynhadledd, cystadleuaeth stori fer, a nifer o weithdai allestyn yn Ne Cymru.

Bardd Plant Cymru - derbyniodd yr elusen arian gan Lywodraeth Cymru ac S4C i alluogi'r prosiect i barhau. Bardd Plant Cymru yw'r Bardd Llawryfog Cymraeg i Blant.

Y Gronfa Datblygu Cyfalaf Wrth Gefn - defnyddiwyd i brynu'r eiddo rhydd-ddaliadol a thalu am y gwaith sylweddol a wnaed arno.

Bwrsariaeth Jan Mark - yn cynnig bwrsariaethau tuag at y gost o fynychu cwrs yn Nhŷ Newydd i ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf penodol.

Bwrsariaeth Judi Thwaite - yn cynnig bwrsariaethau tuag at y gost o fynychu cwrs yn Nhŷ Newydd i ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf penodol.

Ffrindiau Darllen - dyfarnwyd cyllid er mwyn cynnal gweithgareddau cydgysylltu Ffrindiau Darllen yng Nghymru.

Gŵyl Llên Plant Caerdydd - darparwyd cyllid ar gyfer cwis teuluol gyda'r awdur Siân Lewis.

Cymdeithas Codi Arian Cymru - darparwyd cyllid CCAC (IOF) i awduron Cymreig yn y digwyddiad Arddangosfa Llenyddiaeth Ryngwladol.

Ffrindiau Darllen - darparwyd cyllid ar gyfer prosiect cyfeillio i rymuso, ymgysylltu a chysylltu pobl hŷn a phobl â dementia trwy ddechrau sgyrsiau trwy ddarllen.

Roald Dahl 100 - darparwyd cyllid ar gyfer prosiectau penodol â balansau sy'n ymwneud â 2018/19.

Cymru Ryfedd a Chyfareddol - darparwyd cyllid ar gyfer taith o amgylch chwech o leoliadau o gwmpas Cymru i archwilio mythau a chwedlau’r ardal gyda'r darlunydd Pete Fowler ac artistiaid gwadd.

## 22 Cronfeydd cyfyngedig - Y flwyddyn flaenorol

| | | Symudiad mewn cronfeydd | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Balans ar 1 Ebrill 2016 | Adnoddau sy'n dod i mewn | Adnoddau a ddefnyddiwyd | Trosglwyddiad | Balans ar 31 Mawrth 2017 |
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Y Neuadd | 5,244 | - | (4,240) | - | 1,004 |
| Llenyddiaeth er Iechyd a Lles | 17,233 | 6,580 | (6,265) | - | 17,548 |
| Gŵyl Llên Plant Caerdydd | 1,247 | - | (200) | (1,047) | - |
| Awdur Ieuenctid Cymru | 1,566 | - | (216) | - | 1,350 |
| Ymddiriedolaeth Rhys Davies | 3,684 | - | - | - | 3,684 |
| Bardd Plant Cymru | 3,708 | 12,280 | (10,090) | - | 5,898 |
| Cronfa Datblygu Cyfalaf Wrth Gefn | 2,219,446 | - | - | - | 2,219,446 |
| Ysgoloriaeth Jan Mark | 5,870 | - | - | - | 5,870 |
| Ysgoloriaeth Judi Thwaite | 500 | - | - | - | 500 |
| Ffrindiau Darllen | - | 2,475 | (1,629) | - | 846 |
| Roald Dahl 100 | - | 70,100 | (73,980) | 22,516 | 18,636 |
| Dydd Dylan | - | 12,000 | (16,809) | 9,324 | 4,515 |
| | 2,258,498 | 103,435 | (113,429) | 30,793 | 2,279,297 |

## 23 Cronfeydd dynodedig

Mae cronfeydd incwm yr elusen yn cynnwys y cronfeydd dynodedig canlynol a neilltuwyd o gronfeydd anghyfyngedig gan yr ymddiriedolwyr at ddibenion penodol:

| | | Symudiad mewn cronfeydd | | |
|---|---|---|---|---|
| | Balans ar 1 Ebrill 2017 | Adnoddau sy'n dod i mewn | Adnoddau a ddefnyddi-wyd | Balans ar 31 Mawrth 2018 |
| | £ | £ | £ | £ |
| Cymynrodd Glyn Jones | 57,280 | - | - | 57,280 |
| Cronfa John Tripp | - | 7,247 | (667) | 6,580 |
| Ysgoloriaethau Ty Newydd | 4,736 | 1,121 | (670) | 5,187 |
| | 62,016 | 8,368 | (1,337) | 69,047 |

**Cymynrodd Glyn Jones** – Cymynroddwyd swm i Llenyddiaeth Cymru gyda’r bwriad o gefnogi Awduron Newydd a chreu man cyfarfod I Awduron. Mae’r gronfa hon wedi ei clustnodi ar gyfer datblygiadau yng Nghanolfan Glyn Jones yng Nghanolfan y Mileniwm

**Cronfa John Tripp** – Cronfa wrth gefn i helpu Awduron i ddatblygu

**Ysgoloriaethau Tŷ Newydd** – Cronfa wrth gefn a neilltuwyd i helpu awduron i ddatblygu

**24 Cronfeydd dynodedig – y flwyddyn flaenorol**

Mae cronfa incwm yr elusen yn cynnwys y cyfrifon dynodedig canlynol sydd wedi eu cadw naill ochr y tu allan i'r cronfeydd anghyfyngedig gan yr Ymddiriedolwyr at bwrpasau penodol:

| | Balans ar 1 Ebrill 2016 | Symudiad mewn Adnoddau a ddefnyddiwyd | Trosglwydd-iad | Balans ar 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| Cymynrodd Glyn Jones | 60,130 | (2,850) | - | 57,280 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | 4,512 | (4,512) | - | - |
| Ysgoloriaethau Ty Newydd | - | - | 4,736 | 4,736 |
| | 64,642 | (7,362) | (4,736) | 62,016 |

**25 Dadansoddiad o asedau net rhwng cronfeydd**

| | Cronfeydd anghyfyngedig | Cronfeydd cyfyngedig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Mae balansau cronfeydd ar 31 Mawrth 2018 yn cynnwys: | | | |
| Asedau diriaethol | 27,292 | 2,219,446 | 2,246,738 |
| Asedau cyfredol/(rhwymedigaethau) | 228,928 | 79,273 | 308,201 |
| | 256,220 | 2,298,719 | 2,554,939 |

**Dadansoddiad o asedau net rhwng cronfeydd – y flwyddyn flaenorol**

| | Cronfeydd anghyfyngedig | Cronfeydd cyfyngedig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Mae balansau cronfeydd ar 31 Mawrth 2017 yn cynnwys: | | | |
| Asedau diriaethol | 35,216 | 2,219,446 | 2,254,662 |
| Asedau cyfredol/(rhwymedigaethau) | 186,747 | 59,851 | 246,598 |
| | 221,963 | 2,279,297 | 2,501,260 |

**26 Ymrwymiadau prydlesau gweithredol**

Ar ddyddiad diwedd y cyfnod adrodd, roedd gan yr elusen rwymedigaethau heb eu talu o ran taliadau prydles isaf yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredol annileadwy, sy'n ddyledus:

| | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| O fewn blwyddyn | - | 14,053 |

**27 Trafodion a phartïon cysylltiedig**

Ad-dalwyd treuliau teithio o £251 (2017: £734) i un aelod o'r bwrdd (2017: tri aelod bwrdd) yn ystod y flwyddyn ariannol.

Cydnabyddiaeth a buddiannau'r ymddiriedolwyr
Ni chafodd unrhyw ymddiriedolwyr gydnabyddiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 (2017: £dim). Fodd bynnag, gwnaed taliadau i aelodau'r bwrdd a'r pwyllgor gan Llenyddiaeth Cymru am weithgareddau a drefnwyd yn uniongyrchol gan Llenyddiaeth Cymru neu am weithgareddau a gefnogwyd gan Llenyddiaeth Cymru drwy Awduron ar Daith.

Roedd dau aelod o'r bwrdd a'r pwyllgor (2017: pedwar) a gafodd gyfanswm ffioedd o £1,376 (2017: £2,512).

**28 Statws Cwmni**

Mae'r sefydliad yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Y gwarantwyr yw'r ymddiriedolwyr a nodir ar dudalen 1.

Caiff y rhwymedigaeth ei chyfyngu i swm o £1 fesul aelod yn unol â Memorandwm Cymdeithasu'r sefydliad.

**29 Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau**

| | **2018** | **2017** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Diffyg am y flwyddyn | 53,679 | (4,907) |
| Addasiadau ar gyfer | | |
| Incwm buddsoddi a gydnabuwyd yn y datganiad o weithgareddau ariannol | (542) | (929) |
| Diffyg ar warediad asedau gosodedig diriaethol | 7,322 | - |
| Dibrisiant a lleihad mewn gwerth asedau sefydlog diriaethol | 3,335 | 3,913 |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio: | | |
| (Cynnydd) mewn stociau | 447 | (243) |
| (Cynnydd) mewn dyledwyr | 22,396 | (27,315) |
| (Lleihad)/cynnydd mewn credydwyr | (44,806) | (14,246) |
| Cynnydd mewn incwm gohiriedig | 31,856 | 34,116 |
| **Arian parod a ddefnyddiwyd gan weithrediadau** | 73,687 | (9,611) |